

Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg: Hydref 2012**1. Y mater dan sylw**

1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg i'r Bwrdd mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gyfeirio'n arbennig at gydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg (a fydd yn cael ei ddisodli gyda hyn gan safonau'n ymwneud â'r Gymraeg), at roi Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg ar waith, ac at y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

1.2 Diweddarwyd yr adroddiad ers trafodaeth y Bwrdd ar 29 Mehefin 2012, yn enwedig mewn perthynas â:

darparu cynllun gweithredu gyda chostau ac amserlenni o ran gweithredu. Mae'r cynllun hwnnw i'w weld yn Atodiad A.

trafodaethau a gynhaliwyd gyda phob un o'r Cyfarwyddwriaethau Cyffredinol i sicrhau eu bod yn deall yr adroddiad a'r cynllun gweithredu ac yn ymrwymo iddynt. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, gwnaed nifer o newidiadau i'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

1.3 Wrth wneud argymhellion sy'n cefnogi'r iaith, cydnabu'r Grŵp yr angen i:

ddiogelu'r ewyllys da at yr iaith sy'n bodoli ar draws y sefydliad;

bodloni dyheadau staff sy'n siarad Cymraeg;

sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg a staff di-Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau; a'u bod yn llwyr ddeall bod ganddynt statws cyfartal a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal wrth weithio i Lywodraeth Cymru;

cydnabod y cynnydd da a wnaed gan y Llywodraeth o ran yr iaith, gan gynnwys y defnydd ohoni yn y gweithle, gan gydnabod hefyd ar yr un pryd y bydd yn rhaid wrth welliant parhaus am amser i ddod er mwyn gwneud cynnydd pellach

cydnabod bod adnoddau'n brin – gan gynnwys, yn benodol, staff sy'n medru'r Gymraeg

adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r iaith, gan gynnwys ei statws swyddogol.

2. Y cefndir

2.1 Gwelwyd nifer o ddatblygiadau pwysig o ran y Gymraeg yn ddiweddar. Yn eu plith y mae:

cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010;

Cydsyniad Brenhinol i Fesur y Gymraeg ym mis Chwefror 2011, a fydd yn cyflwyno safonau'n ymwneud â'r Gymraeg;

cymeradwyaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'n Cynllun Iaith Cymraeg newydd ym mis Mawrth 2011, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a chynllun gweithredu corfforaethol;

cyhoeddi Strategaeth newydd y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg, *Iaith Fyw, Iaith Byw*, ym mis Mawrth 2012;

penodi Comisiynydd cyntaf y Gymraeg dan Fesur y Gymraeg, a diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 1 Ebrill 2012;

trosglwyddo llawer o'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2012;

datblygu arferion da ledled Cymru, gan gynnwys mewn sefydliadau megis Heddlu Gogledd Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

- 2.2 Gellir gosod y newidiadau hyn ochr yn ochr ag adroddiad beirniadol gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, a gyhoeddwyd yn 2009. Ynnddo roedd argymhelliad 'sylfaenol' a nifer o argymhellion 'arwyddocaol' o ran yr angen am fwy o atebolrwydd ac eglurder dros berchnogaeth o'r Gymraeg o fewn y sefydliad, yn ogystal ag effeithiolrwydd y Cynllun Iaith Gymraeg a'r polisiau sy'n gysylltiedig ag ef.
- 2.3 Aed ati dros nifer o flynyddoedd i gasglu safbwyntiau staff a rhanddeiliaid am y Gymraeg. Yn fwy diweddar, ym mis Mai 2012, cynhaliwyd gweithdai 'Parod at y dyfodol' ar weithio'n ddwyieithog. Cafodd canfyddiadau'r gweithdai eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac fe'u defnyddiwyd wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu yn Atodiad A.
- 2.4 Mewn ymateb i'r datblygiadau hyn, bu'r Bwrdd yn ystyried papur a gyflwynwyd gan Uned y Gymraeg ym mis Hydref 2011 ac a oedd yn amlinellu nifer o argymhellion er mwyn gwella'n perfformiad mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gadw mewn cof hefyd y safonau'n ymwneud â'r Gymraeg, sydd ar y gorwel. Gofynnodd y Bwrdd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg gael ei sefydlu er mwyn gwneud argymhellion pellach i'r Bwrdd.
- 2.5 Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod yn fisol rhwng misoedd Ionawr a Mehefin 2012 ac eto ym mis Hydref o dan gadeiryddiaeth Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Addysg a Sgiliau. Roedd cylch gwaith y Bwrdd yn cynnwys gwneud argymhellion o ran:

bwrw ymlaen â'r gwaith o wella'n perfformiad o ran y Gymraeg drwy sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn perfformio yn unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg a'i strategaeth ar gyfer y Gymraeg, gan gymryd camau ar yr un pryd i sicrhau y bydd y Llywodraeth yn gallu cydymffurfio, yn y man, gyda'r safonau'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys safonau'n ymdrin â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg. datblygu cynllun gweithredu ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaethau allanol a gynigir gennym yn Gymraeg.

- 2.6 Mae'r papur hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Grŵp ac yn pennu argymhellion ar gyfer y Bwrdd. Er bod y rhan fwyaf o'r papur yn canolbwyntio ar weithredu'n Cynllun Iaith Gymraeg, ar sgiliau dwyieithog a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae yma hefyd argymhellion allweddol sy'n ymwneud â strategaeth y Gymraeg.
- 2.7 Trafodwyd chwe phrif thema gan y Grŵp:

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
 'Gwedd a naws' ddwyieithog
 Y Gymraeg yn y gweithle
 Sgiliau dwyieithog, cynllunio'r gweithlu a chysiau Cymraeg i Oedolion
 Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg
 Perchenogaeth, monitro ac adrodd.

- 2.8 Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer pob thema. Bydd rhai o'r argymhellion yn arwain at yr angen i ystyried rhai materion yn fwy manwl, gan nad oedd hi'n bosibl, yn yr amser a oedd ar gael, i'r Grŵp ddatrys yn llawn yr holl faterion a amlinellir yn yr

adroddiad hwn.

- 2.9 Manylir yn y Cynllun Gweithredu yn atodiad A am y gwaith y mae angen ei wneud er mwyn rhoi argymhellion y Grŵp ar waith. Bydd y pwyntiau gweithredu sydd yn y cynllun hwnnw yn helpu i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cydymffurfio â'r safonau'n ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn cael eu cyflwyno yn y man, a hynny fel rhan o raglen o welliant parhaus mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n debyg, fodd bynnag, y bydd angen mwy o waith er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau, maes o law. Er enghraifft, o ystyried natur y broses safonau, mae'n debyg iawn y bydd angen i ni fod yn llawer mwy penodol a chyson o ran y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gennym.

Ar gyfer pob pwynt gweithredu, mae'r cynllun yn:

amlinellu lle y bydd y prif gyfrifoldeb
cynnwys amserlen i orffen y gwaith
nodi unrhyw oblygiadau o ran cost, lle bônt yn wybyddus.

- 2.10 O ran costau, cytunodd y Grŵp y byddai bob amser yn bwysig sicrhau bod y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r cynllun gweithredu ar waith yn rhoi gwerth am arian - ac y dylid cymryd camau i sicrhau bod buddsoddiad yn y Gymraeg yn cael ei wneud mewn modd cost-ffeithiol. Un enghraifft o hyn fyddai codi arwyddion dwyieithog pan fo angen arwyddion newydd, yn hytrach na newid pob arwydd uniaith Saesneg o fewn cyfnod penodol. Rydym yn cydnabod yn llwyr y bydd yn cymryd amser i roi'r holl gamau sydd yn y cynllun ar waith, ond bod y cynllun gweithredu yn arwydd cadarn o ymrwymiad, a'i fod yn pennu amserlenni penodol. Yn y cyfamser, mae cyfanswm y costau yn atodiad A yn £218,900 (sy'n cynnwys swm o £200,000 a ddyrannwyd o gyllideb RhNgCC i ariannu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion).
- 2.11 Fel rhan o'r broses adrodd ar eu Cynlluniau Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg yn 2012, gofynnir i'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol gynnwys pwyntiau gweithredu priodol o atodiad A yn eu Cynlluniau Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg, fel y bo'n briodol.

3. Y sefyllfa bresennol

- 3.1 Mae gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg a'u lefel o ran gallu ysgrifenedig a llafar yn cael ei chasglu gan yr Adran AD. Ar 30 Medi 2012, roedd 2585 o siaradwyr Cymraeg yn gweithio i Lywodraeth Cymru. O'r rhain, roedd 978 yn rhugl (lefel 4 a 5). Gellir gweld dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg (lefelau 3-5) yn atodiad B. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (384), neu yng Nghaerdydd (422) ac yn y Gogledd (286).
- 3.2 Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru wybodaeth gynhwysfawr, ar lefel gorfforaethol, am nifer y siaradwyr Cymraeg y mae eu hangen arni, ar wahanol raddfeydd, ar gyfer gwahanol swyddi, a gwahanol leoliadau (trafodir hyn isod o dan 'cynllunio'r gweithlu').
- 3.3 Ar hyn o bryd mae 187 o staff yn dysgu'r Gymraeg drwy'r contract dysgu a datblygu craidd gydag Ysgol Iaith Acen. Mae 34 o aelodau staff ar lefel mynediad, 7 ar lefel sylfaen, 40 ar lefel ganolradd, 71 ar lefel uwch a 35 ar lefel hyfiedredd.

- 3.4 Yn ystod 2011/12, derbyniodd Llywodraeth Cymru 33 o gwynion yn ymwneud â methiannau honedig i gydymffurfio â'i Chynllun Iaith Gymraeg. Cadarnhawyd 9 o'r cwynion hynny, ac ymatebodd y Llywodraeth naill ai drwy ymddiheuro am fethu â chydymffurfio â'r Cynllun neu drwy weithredu er mwyn atal methiant yn y dyfodol. (Yn achos y 24 o gwynion a oedd yn weddill, ni chadarnhawyd rhai ohonynt a chafodd rhai eu cadarnhau'n rhannol). O'r 33 o gwynion, roedd 12 yn faterion a godwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ac na chawsant eu codi ganddo ar ran aelod o'r cyhoedd).

4. Sail resymegol

- 4.1 Mae nifer o resymau pam y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol ac yn bositif mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 4.2 Mae'r Gymraeg yn rhan annatod ac unigryw o ddiwylliant Cymru, ac mae bellach yn adennill tir ar ôl canrif o ddirywiad. Mae'n iaith frodorol sy'n helpu i ddiffinio cenedl y Cymry.
- 4.3 Mae'n helpu i gryfhau ac uno cymunedau, teuluoedd a ffrindiau. Mae'n rhan o'u hanes ac yn rhan o'r ffordd y maent yn edrych ar y byd. Mae'n iaith y mae mwyafrif sylweddol y bobl sy'n byw yng Nghymru yn ei hystyried yn werthfawr, yn rhywbeth i fod yn falch ohoni - ac sy'n werth ei chadw a'i meithrin.
- 4.4 Mae gofynion statudol ar y Llywodraeth (o ran yr angen am strategaeth iaith Gymraeg, o ran yr angen am gynllun ac, yn y man, o ran cydymffurfio â'r safonau'n ymwneud â'r Gymraeg). Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa arwyddocaol fel corff sy'n darparu gwasanaethau (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i bobl Cymru, ac mae llawer ohonynt yn disgwyl cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu am weld y Llywodraeth yn datblygu polisiau i gefnogi'r iaith.
- 4.5 Nodir yn y *Rhaglen Lywodraethu* bod 'gan bawb ei ran yn y gwaith o greu Cymru'r dyfodol'. Yn ei ragair i'r *Rhaglen*, mae'r Prif Weinidog yn nodi mai nod y Llywodraeth yw creu cymdeithas gynhwysol, sicrhau mwy o gydraddoldeb a chreu cymdeithas â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran datblygu cymuned o'r fath. Mae'r *Rhaglen* yn amlinellu'r angen i feithrin gwell perthynas rhwng y Llywodraeth, ei phartneriaid a chymunedau ledled Cymru. Mae'r Gymraeg yn agwedd bwysig ar fywydau a gweithgareddau nifer o'r partneriaid a'r cymunedau hynny – ac mae angen i'r Llywodraeth barchu hynny wrth iddi fynd ati i feithrin ei pherthynas â nhw, gan gynnwys y berthynas personol rhwng staff Llywodraeth Cymru a'r bobl y maent yn delio â nhw. Bydd prif ffrydio'r iaith yn ein gwaith, gan gynnwys gwaith i ddatblygu polisiau a gwasanaethau newydd, yn ein helpu i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi anghenion a dyheadau pawb sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Gymraeg. Bydd mabwysiadu dull cadarnhaol a deallus o weithredu mewn perthynas â'r Gymraeg o fewn y sefydliad yn ein helpu i gyrraedd y nod yn hyn o beth.
- 4.6 Gwnaed cynnydd sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf o ran lleihau'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Gymraeg, yn bennaf drwy lwyddiant addysg cyfrwng Gymraeg. Roedd 16.3% o ddisgyblion ysgolion uwchradd ac 21.9% o ddisgyblion ysgolion cynradd yn cael y rhan fwyaf o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2011. Fodd bynnag, er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith gynaliadwy, mae angen iddi gael ei defnyddio fel cyfrwng cyfathrebu naturiol y tu allan i'r ysgol – yn y cartref, yn y

gymuned ac yn y gweithle. A hithau'n sefydliad arweiniol ym maes y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran annog y datblygiadau hyn, gan gynnwys bod yn esiampl i eraill o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

5. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru

5.1 Aed ati mewn nifer o ddogfennau i amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg, ei chynllun a'i datganiad polisi ar ieithoedd gweinyddol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2007 (a fydd bellach yn cael ei ddisodli gan y weledigaeth a amlinellir isod). Cyfeirir at rai o'r rhain yn nes ymlaen yn y ddogfen, a hynny yng nghyswllt meysydd gwaith penodol.

5.2 O ystyried datblygiadau diweddar yn ymwneud â'r iaith (fel y'u hamlinellir ym mharagraff 2.1 uchod), roedd y Grŵp yn teimlo ei bod yn amser da i ailystyried gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, gan gwmpasu popeth a wnawn. Dyma'r weledigaeth y cytunwyd arni gan y Grŵp:

"Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'r Gymraeg ac am ei gweld yn ffynnu. Bydd yn gwneud popeth posibl i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ac ym mhob rhan o Gymru.

Wrth wneud hynny, ei nod fydd gweld pobl Cymru yn defnyddio'r Gymraeg yn amlach - yn y cartref, yn ystod eu hamser hamdden, ym myd addysg, yn y gwaith ac yn eu hymwneud â'r sefydliadau sy'n eu gwasanaethu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith, gan gynnwys y defnydd a wneir o'r iaith yn y gwaith yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r rheini sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru gynorthwyo i wireddu'r weledigaeth hon. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd diwylliannol yr iaith a'r graddau y mae'n cael ei gwerthfawrogi gan bobl ledled Cymru.

Wrth gynnal ei busnes, bydd y Llywodraeth yn gweithredu yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r iaith, gan gynnwys ei statws swyddogol – a bydd yn datblygu'r iaith ymhellach fel iaith gwaith yn y Llywodraeth.

Bydd y Llywodraeth, o'i rhan hi, yn anelu at ddarparu ei gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan wneud hynny i'r un safon ac yn unol â'r un amserlenni oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Mae am i siaradwyr Cymraeg ymwneud â hi yn Gymraeg, i deimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny – ac i gael y gwasanaeth gorau posibl.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd yn rhoi anogaeth a chefnogaeth iddynt a fydd yn helpu i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg – ac a fydd, cyn gynted ag y bo modd, yn mynd â'r Llywodraeth drwy raglen o welliant parhaus er mwyn creu gweithle cynyddol ddwyieithog. Wrth wneud hynny, bydd yn diogelu'r ewyllys da at yr iaith sydd i'w weld ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg a staff di-Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau a'u bod yn llwyr ddeall bod ganddynt statws cyfartal a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal wrth

weithio i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y dylai gael ei gweld fel corff sy'n arwain y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i wireddu'r weledigaeth hon ac y gallai fod angen cyfaddawdu am nad yw ei hadnoddau'n ddihysbydd. Gall cost gweithredu'n ddwyieithog fod yn ffactor a fydd yn cyfyngu arni yn hyn o beth, ond gallai cynyddu'n gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd arwain at fwy o effeithlonrwydd a chostau is.

Rydym wedi gwneud cynnydd da eisoes, a byddwn yn parhau i wella."

6. Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

- 6.1 Teimlai'r Grŵp fod angen gwella ymwybyddiaeth ymysg staff ar draws Llywodraeth Cymru o ran y ffordd y mae polisïau a gwasanaethau'r Llywodraeth, a'i gwaith, yn effeithio ar y Gymraeg. Roedd yn destun pryder arbennig bod 51% o'r rheini a oedd wedi ymateb i arolwg staff yn 2009 wedi dweud nad oedd y Gymraeg yn berthnasol iawn i'w rôl o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd yn bwysig sicrhau hefyd fod staff yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r Gweinidogion o ran y Gymraeg – ac o ran y gwasanaeth y maent am ei dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.2 Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Grŵp weld a chynnig sylwadau ar fodiwl ar-lein sy'n para 45 munud i 'godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Roedd yr ymatebion i'r modiwl yn rhai cadarnhaol a bydd y sylwadau a gyflwynwyd yn cael eu hymgorffori yn y modiwl. Roedd y sylwadau hynny'n cynnwys yr angen i ystyried a fyddai modd gwneud y modiwl hwnnw'n llai na 45 munud. Cytunwyd y dylai'r modiwl gynnwys ffocws ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gyda golwg ar gadw cefnogaeth y staff di-Gymraeg.

Argymhellion

- I. Dylai'r modiwl hyfforddiant ar lein ar 'godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg', sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, fod yn orfodol ar gyfer pob aelod o staff. [Ymrwymiad yn y Cynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd].
- II. Dylai staff Is-adran y Gymraeg barhau i ddarparu sesiwn ar y Gymraeg mewn cyrsiau cynefino ar gyfer staff newydd.
- III. Dylai staff Is-adran y Gymraeg gynnig amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant byr 'Hotshot' ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.
- IV. Dylai'r Llywodraeth gynnig mwy o gyrsiau dwys ar ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff allweddol, megis staff sy'n arwain gwaith ar ddatblygu polisi, dyfarnu contractau, neu ariannu trydydd partïon.
- V. Dylai staff Is-adran y Gymraeg baratoi erthyglau cyson am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg i'w cyhoeddi ar y fewnwyd.
- VI. Dros amser, dylai Is-adran y Gymraeg gynnal a datblygu'r adran ar y fewnwyd sy'n rhoi arweiniad am y Gymraeg, a chynnig yn yr adran honno arweiniad clir, cynhwysfawr a chryno i staff Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r

Gymraeg, gan gynnwys lle i ddod o hyd i ddogfennau Cymraeg (megis dogfennau polisi AD a ffurflenni mewnol).

7. 'Gwedd a naws' ddwyieithog

- 7.1 Er bod defnydd o'r Gymraeg wedi cynyddu dros y blynyddoedd, roedd y Grŵp yn cytuno nad yw'r Llywodraeth yn teimlo, i raddau digonol, fel sefydliad lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a lle mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n gwbl hyderus eu bod yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg (naill ai fel aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'n gwasanaethau, neu fel aelodau o staff sy'n defnyddio gwasanaethau mewnol). Yn aml, fodd bynnag, gall canfyddiadau pobl gelu'r gwirionedd, a gallai hanes hir o ddiffyg darpariaeth yn y Gymraeg, ynghyd â'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg, guddio i ba raddau y mae gwasanaeth yn y Gymraeg ar gael i unigolyn. Cydnabu'r Grŵp fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ddiweddar, gan gynnwys y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr amgylchedd ar gyfer ymwelwyr â'r Bont yn ein swyddfeydd yn Aberystwyth ac yng Nghyffordd Llandudno yn un cwbl ddwyieithog a chroesawgar. Gweithredwyd hefyd i sicrhau ein bod yn ymwneud yn Gymraeg â'r cymunedau yng nghyffiniau'r swyddfeydd hynny. Nododd y Grŵp y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn pennu safonau penodol mewn llawer o'r meysydd hyn, ac y byddai o fantais i Lywodraeth Cymru wella ei pherfformiad yn hyn o beth yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd safonau'n cael eu pennu gan y Comisiynydd.

Argymhellion

- I. Dylid cymryd camau i sicrhau bod cyswllt cyntaf y cyhoedd gyda Llywodraeth Cymru ar gael bob amser drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (gan gynnwys derbynfeydd, switsfyrddau a llinellau cymorth).
- II. Dylai contractau ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis contractau arlwyyo, sicrhau darpariaeth briodol yn Gymraeg o ran, er enghraifft, darparu staff sy'n siarad Cymraeg, a bwydlenni, taflenni ac arwyddion dwyieithog.
- III. Dylid adolygu contractau ar gyfer gwasanaethau 'cyswllt cyntaf' ag unigolion a sefydliadau allanol, megis gwasanaethau diogelwch, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael yn y Gymraeg.
- IV. Dylai pob arwydd newydd parhaol a dros dro yn adeiladau Llywodraeth Cymru fod yn ddwyieithog.
- V. Dylai templedi safonol ar gyfer arwyddion Cymraeg dros dro (megis 'ddim yn gweithio' a 'cyfweliadau' fod ar gael i staff eu lawrlwytho o'r fewnwyd).
- VI. Fel arfer, yn achos holl bosteri a thaflenni Llywodraeth Cymru sy'n cael eu harddangos, neu eu dosbarthu i bob aelod o staff mewn unrhyw un o'n swyddfeydd, dylid sicrhau eu bod yn ddwyieithog oni bai ein bod wedi dangos ymlaen llaw na fyddai hynny'n ymarferol nac yn rhesymol.
- VII. Dylai gwybodaeth brintiedig sy'n cael ei harddangos mewn lleoedd bwyta a bariau coffi ar gyfer y staff fod yn ddwyieithog.
- VIII. Dylai cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud drwy systemau cyhoeddi dros yr uchelseinydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyhoeddiadau sydd

wedi'u recordio'n barod, fod yn ddwyieithog, oni bai ein bod wedi dangos ymlaen llaw na fyddai hynny'n ymarferol nac yn rhesymol.

- IX. Dylai Gwobrau Llywodraeth Cymru barhau i wobrwyo gweithgareddau sy'n cefnogi'r iaith.
- X. Dylai'n sianeli cyfathrebu digidol, megis *You Tube* a *Twitter*, a'r holl gyfathrebu a wneir ar-lein, gynnwys defnydd priodol o'r Gymraeg a dylent fod yn esiampl i sefydliadau eraill ei dilyn.

8. Y Gymraeg yn y gweithle

- 8.1 Nododd y Grŵp y bydd y Comisiynydd Iaith yn gallu gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio safonau gweithredol a fydd, o bosibl, ymhlith pethau eraill, yn ymdrin â'r cyfleoedd yr ydym yn eu rhoi i'n staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 8.2 Os ydym am ddatblygu'n defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn llwyddiannus, bydd angen i ni gadw cefnogaeth staff di-Gymraeg. Ar hyn o bryd mae llawer o ewyllys da ymysg y staff hynny tuag at yr iaith, sy'n awgrymu bod cyfle i ni fod yn arloesol ac anelu at fwy o newid. Fel yr amlinellir uchod, bydd yn bwysig sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg a staff di-Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau; a'u bod yn llwyr ddeall bod ganddynt statws cyfartal a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal wrth weithio i Lywodraeth Cymru. Mae canfyddiad hefyd ymysg rhai siaradwyr Cymraeg bod rhagdybiaeth *yn erbyn* defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; mae hefyd ychydig o ansicrwydd o ran y graddau y gellir defnyddio'r Gymraeg. Wrth estyn y defnydd o'r Gymraeg, bydd yn rhaid i ni ystyried sut y byddai'r sefydliad yn ymdopi, er enghraifft, ag ymholiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a fyddai'n cyfeirio at gofnodion e-bost a mynediad i gofnodion eraill, pan fo'r deunydd dan sylw yn Gymraeg yn unig. Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn rhai cymhleth (o ran dod o hyd i atebion ymarferol sy'n briodol ar gyfer gweithle dwyieithog) ac, o'r herwydd, bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl iddynt ar ôl i'r Bwrdd ystyried y papur hwn.
- 8.3 Gall defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle olygu:

darparu gwasanaethau i staff Llywodraeth Cymru fel 'cwsmeriaid mewnol' (megis gwasanaethau AD a darparu adnoddau TGCh) defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr fel rhan o'r gwaith a wneir o ddydd i ddydd.
- 8.4 Dim ond niferoedd bach sydd wedi defnyddio rhai o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (megis profion y ganolfan asesu a gynhaliwyd yn ddiweddar). Mae angen i ni ddeall yn well pam nad yw staff sy'n medru'r Gymraeg yn dewis yr opsiwn Cymraeg.
- 8.5 Ar hyn o bryd, heblaw am gymhelliad personol, nid oes digon o anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg, ond mae yna rai ffactorau sy'n rhwystro staff rhag gwneud hynny, neu sy'n eu cymell i beidio. Hyd nes yr awn i'r afael â hyn, nid yw'r defnydd o'r Gymraeg gan y naill neu'r llall o'r categorïau uchod yn debygol o gynyddu rhyw lawer.
- 8.6 Mae rhai timau yn Llywodraeth Cymru yn gweithio bron yn gwbl ddwyieithog ac yn

cynllunio eu gofynion o ran sgiliau dwyieithog yn unol â hynny (megis CyMAL ac Is-adran y Gymraeg). Byddai'n werth ystyried a ddylai'r Llywodraeth sefydlu mwy o dimau dwyieithog er mwyn cynnig rhagor o gyfleoedd i staff weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddatblygu eu sgiliau wrth wneud hynny, er mwyn rhoi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'r iaith yn y gwaith – a galluogi'r timau hynny i ddarparu gwasanaethau cyson, o safon uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hefyd fod angen siaradwyr Cymraeg ar draws y sefydliad. Dylid bod yn ofalus felly i sicrhau na fyddai sefydlu mwy o dimau dwyieithog yn amharu ar ein gallu i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ar draws y Llywodraeth.

- 8.7 Dylem anelu at adeiladu ar yr arferion da a ddatblygwyd yn ein swyddfeydd yn Llandudno ac Aberystwyth, gan gynnwys adeiladu ar y cyngor a amlinellir yn y cyhoeddiad gan swyddfa Llandudno, *Towards bilingual working: small steps-a big difference*.

Y nod

- 8.8 Mae'r grŵp yn cynnig y nod a ganlyn mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle:

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyflogwr:

sy'n hybu ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

sy'n gosod esiampyl i sefydliadau eraill ei dilyn

sy'n parchu ac yn cefnogi'r angen i sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg yn gallu gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r Gymraeg yn y gwaith
sy'n anelu at adeiladu ar y sefyllfa bresennol lle mae 18% o'i gweithlu yn medru'r Gymraeg (lefelau rhuglder 4 a 5)

sy'n sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg a staff di-Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau a'u bod yn llwyr ddeall bod ganddynt statws cyfartal a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal wrth weithio i Lywodraeth Cymru.

Argymhellion

- I. Dylid sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (gan gynnwys fersiynau Cymraeg o becynnau meddalwedd, ffurflenni a pholisïau mewnol). Dylai deunyddiau Cymraeg (megis polisïau a ffurflenni at ddefnydd mewnol) fod ar gael drwy un porth ar y fewnrwyd.
- II. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei pholisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Dylai hyn gynnwys materion megis y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd (gan gynnwys papurau ar gyfer cyfarfodydd); negeseuon e-bost mewnol; cofnodion a nodiadau cyfarfodydd; drafftio dogfennau; adolygiadau perfformiad, a chofnodion personol. Dylai'r polisi ystyried materion yn ymwneud â chynaliadwyedd (megis ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol) ond dylai hefyd roi'r neges i staff bod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Dylid edrych ar yr arferion gorau mewn sefydliadau a gwledydd eraill.
- III. Dylid adolygu'r System Rheoli Perfformiad a'r polisïau sy'n gysylltiedig â hi er mwyn ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Er enghraifft, os yw'r Gymraeg wedi'i dynodi'n 'sgil allweddol' ar gyfer swydd, dylai'r canllawiau gynghori rheolwyr llinell a

deiliaid swyddi am yr angen i gynnwys hynny ar y ffurflen adolygu perfformiad.

- IV. Dylid mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gan gynnwys nodi a blaenoriaethu'r gwasanaethau y dylid eu darparu'n ddwyieithog, megis:
 - y cymorth a gynigir gan yr Adran Adnoddau Dynol
 - Cyfathrebu Mewnol a'r fewnrwyd
 - TG (gan gynnwys contract Atos)
 - Rheoli Cofnodion
 - Iechyd Galwedigaethol.
 - Ffurflenni at ddefnydd y staff (gan gynnwys ffurflenni electronig a ffurflenni ar-lein)
 - Hyfforddiant.
 - V. Dylid gweithredu mewn ffordd strategol o ran yr hyfforddiant a gynigir i'r staff, gan anelu at sicrhau bod y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddiant (a ddarperir ar draws Llywodraeth Cymru neu'n lleol, ym meysydd gwaith y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol) ar gael yn Gymraeg, gan ddibynnu ar y galw, a dylid mynd ati o bryd i'w gilydd i fesur y galw am gyrsiau o'r fath. Dylai hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg fod o'r un safon â hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg.
 - VI. Dylai Cysill, Cysgair a rhyngwynebau Cymraeg *Microsoft Office* a Mewnwrwyd Llywodraeth Cymru fod ar gael yn hwylus i'r staff. Dylai Is-adran y Gymraeg sicrhau bod canllawiau ar gael ar sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn.
 - VII. Dylai adnoddau megis *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu* ac adnoddau eraill er mwyn helpu i wella sgiliau drafftio, megis Arddulliadur etc y Gwasanaeth Cyfieithu, fod ar gael i'r staff.
 - VIII. Dylai Is-adran y Gymraeg, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu a chydweithwyr ym maes TGCh, ystyried a fyddai'n ymarferol cynnig meddalwedd cyfieithu Cymraeg pwrpasol, megis pecyn cyfieithu Canolfan Bedwyr, i staff, neu fanciau o gofau cyfieithu sy'n cynnig testun cyfatebol wedi'i alinio yn y Gymraeg a'r Saesneg.
 - IX. Dylai cynhyrchion a fydd yn galluogi eraill i'w hadnabod fel siaradwyr Cymraeg fod ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg. Gallai hyn gynnwys llinynnau gwddf (*lanyards*) ar gyfer pasys diogelwch, arwyddion desg, a bathodynau.
 - X. Dylai Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ystyried treialu timau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn 'dimau dwyieithog dynodedig', y gellid annog dysgwyr Cymraeg i ymuno â nhw, mewn modd wedi'i reoli, er mwyn gwella'u sgiliau yn y Gymraeg, rhoi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, a galluogi'r timau hynny i ddarparu gwasanaethau Cymraeg cyson, o safon uchel i'r cyhoedd. Os nad oes timau o'r fath ym maes gwaith Cyfarwyddiaeth Gyffredinol, dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i'w sefydlu.
 - XI. Er mwyn rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau Cymraeg, dylid cefnogi secondiadau i sefydliadau neu dimau yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu i weithio ar brosiectau lle mae angen sgiliau yn y Gymraeg,
- 9. Sgiliau dwyieithog, cynllunio'r gweithlu a chyrsiau Cymraeg i Oedolion**

- 9.1 Nododd y Grŵp fod risgiau ymarferol sylweddol, ynghyd â risg sylweddol i enw da'r Llywodraeth, yn gysylltiedig â diffyg gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Mae'r risg yn fwy yn ein hachos ni oherwydd y gallai Comisiynydd y Gymraeg ddisgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn sefydliad sy'n esiamp i eraill.
- 9.2 Er gwaethaf ymarfer cynllunio sgiliau dwyieithog a gynhaliwyd ar draws y sefydliad yn 2006, o ganlyniad i ailstrwythuro a newidiadau eraill i'r sefydliad ers hynny, nid ydym yn llwyr ymwybodol ar hyn o bryd o'n hanghenion o ran y Gymraeg ar lefel gorfforaethol, nac ar lefel yr Adrannau neu'r Is-adrannau. Nid ydym yn gallu asesu ein gallu dwyieithog yn hyderus, nac ychwaith asesu a yw staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y mannau cywir. Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn elfen o'r comisiwn ar Gynllunio'r Gweithlu, a allai arwain at well data er mwyn cynllunio anghenion staffio'r dyfodol.
- 9.3 Nid yw'r Grŵp yn argymhell y dylid ail-gynnal yr ymarfer cynllunio sgiliau dwyieithog a gynhaliwyd yn 2006, yn enwedig o ystyried y byddai hynny'n drwm ar amser ac adnoddau. Darparwyd gwybodaeth fanwl iawn yn 2006, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod yr wybodaeth honno wedi cael ei defnyddio'n strategol, nac ychwaith fod y dogfennau cynllunio wedi cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae angen i ni roi mwy o bwyslais ar alluogi'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, y Cyfarwyddwyr a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ran y Gymraeg o fewn eu meysydd. Eto, bydd cadw ewyllys da staff di-Gymraeg yn bwysig, a dylai fod dealltwriaeth gyffredin mai am fod rhesymau da dros hynny y bydd sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd.
- 9.4 Gan fod cyfyngiadau ar recriwtio allanol ar hyn o bryd, mae angen i ni ddefnyddio'n hadnoddau yn fwy effeithiol, o ran ein siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i ni recriwtio'n allanol am staff â sgiliau Cymraeg os na fydd modd bodloni'r galw yn fewnol. Golyga hyn y bydd yn rhaid bod yn fwy penodol ynghylch 'Cymraeg yn hanfodol' wrth i ni fynd ati i recriwtio.
- 9.5 Mae gennym nifer o staff sy'n rhugl eu Cymraeg – a gellir eu rhannu'n ddau gategori:
- i) siaradwyr hyderus, rhagweithiol sy'n achub ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg;
 - ii) y rheini sydd â lefel dda o ran hyfedredd ond nad ydynt yn hyderus – ac sy'n ddibrofiad o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Mae angen i ni ddatgloi potensial yr ail gategori o staff yn benodol.

- 9.6 Mae gorddibyniaeth ar y Gwasanaeth Cyfieithu i ddarparu cyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer swyddogion, lle nad oes gan adrannau niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg i ymdrin â deunydd sy'n cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Gymraeg. Mae hwn yn ddefnydd gwael o adnoddau ac yn faich ar y Gwasanaeth Cyfieithu – baich y byddai modd cael gwared arno drwy gynllunio sgiliau'n well. Dylem anelu at sicrhau bod timau (yn enwedig y rheini sy'n derbyn deunydd Cymraeg yn rheolaidd) yn dod yn fwyfwy abl i ymdrin â deunydd Cymraeg heb orfod ei gyfieithu i'r Saesneg.
- 9.7 Mae'r Llywodraeth yn datblygu prosiect ar y cyd â CBAC i ddatblygu 'adnodd diagnostig' ac iddo ddwy elfen: yr elfen gyntaf yw set fach o gwestiynau sydd â'r nod

o alluogi cyflogwyr a rheolwyr llinell i benderfynu a ddylai swydd wag gael ei llenwi gan berson â sgiliau Cymraeg (a lefel y sgiliau hynny o ran siarad, gwranddo, ysgrifennu a darllen). Bydd yr ail elfen yn galluogi siaradwyr Cymraeg i brofi eu gallu ieithyddol (eto o ran eu sgiliau siarad, gwranddo, ysgrifennu a darllen).

- 9.8 Mae amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gael ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, a chynigir cefnogaeth i ddysgwyr ar bob lefel. Fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gweithle, er iddynt fynychu ddosbarthiadau ers nifer o flynyddoedd. Yn ogystal, mewn rhai swyddfeydd, mae niferoedd uchel o ddysgwyr yn gadael eu cyrsiau cyn eu cwblhau.

Y nod

- 9.9 Nododd a chytunodd y Grŵp ar y nod a ganlyn ar gyfer sgiliau dwyieithog a chynllunio'r gweithlu (mae'r dyfyniad isod yn dod o Gynllun Iaith Gymraeg y Llywodraeth):

Mae angen i ddigon o staff Cymraeg eu hiaith fod ar gael i bob un o'n gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru (boed yn ysgrifenedig neu'n llafar), ac mae angen i'r staff hynny feddu ar y sgiliau angenrheidiol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn nodi'r gweithleoedd neu'r swyddi hynny lle bydd gallu yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol (o ran siarad, darllen ac ysgrifennu). Gellir diffinio'r gofyniad hwn yn elfen allweddol o weithle neu dîm, neu gall fod yn rhan o swydd benodol.

Argymhellion

- I. Rhaid i'n hanghenion sgiliau dwyieithog fod yn rhan annatod o'n strategaeth Cynllunio'r Gweithlu ac o gasglu data.
- II. Mae angen i Gyfarwyddiaethau Cyffredinol roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion ieithyddol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan fynd i'r afael hefyd ag unrhyw wendidau.
- III. Dylai data am sgiliau yn y Gymraeg fod ar gael i'r Gyfarwyddiaethau Cyffredinol, a dylid strwythuro'r data hynny mewn modd sy'n eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch sgiliau dwyieithog.
- IV. Dylai Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol, ac yn benodol Partneriaid Busnes AD, gael hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn perthynas â recriwtio a'r Gymraeg, a hynny er mwyn iddynt feithrin gwell dealltwriaeth yn hyn o beth. Er enghraifft, ystyried yr anawsterau sy'n wynebu'r rheini sydd am recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a phenderfynu a yw hon yn broblem y gellir mynd i'r afael â hi drwy, er enghraifft, recriwtio'n allanol neu drwy ddatblygu carfan o staff sy'n siarad Cymraeg a fyddai'n gallu symud i swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg ar gyfer tasgau a fydd yn para am amser penodol.
- V. Dylid adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion, gan ganolbwyntio ar anghenion busnes, ac ar ddealltwriaeth o ddisgwyliadau'r sefydliad o ran dysgwyr, cefnogaeth i ddysgwyr, ac achredu.
- VI. Dylid ystyried rhoi rhagor o gyfleoedd i staff fynychu cyrsiau dwys Cymraeg i Oedolion. Bydd angen i adrannau gefnogi hyn drwy ryddhau staff i fynd i'r cyrsiau

hynny.

- VII. Dylai siaradwyr Cymraeg rhugl, dihyder gael eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, drwy fynd ar gyrsiau gloywi iaith. Dylid hefyd roi cefnogaeth iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- VIII. Dylai'r Adran AD ystyried a fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio elfen gyntaf adnodd diagnostig CBAC fel cam gorfodol o'r broses recriwtio am swyddi. Dylai'r Adran AD hefyd baratoi adroddiadau am gyfran y swyddi gwag a hysbysebhir lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. [Mae defnyddio'r adnodd diagnostig yn ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol]
- IX. Dylai'r Gwasanaeth Cyfieithu weithio gyda rheolwyr llinell ar draws Llywodraeth Cymru i osod profion ac asesu sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig pan fo'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd. Gallai elfen gyntaf adnodd diagnostig CBAC hefyd helpu yn hyn o beth.
- X. Ymhen dwy flynedd i ddyddiad y papur hwn, dylai'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol dalu am gyfieithiadau i'r Saesneg o ddeunydd sy'n cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i dynnu sylw at yr angen i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg i dimau sy'n derbyn deunydd Cymraeg yn rheolaidd, er mwyn helpu i leihau'r angen i gyfieithu'r deunydd hwnnw i'r Saesneg at ddefnydd mewnol. Cyn cymeradwyo'r polisi hwn yn derfynol, dylid mynd ati tua diwedd y cyfnod o ddwy flynedd i gynnal adolygiad o'r sefyllfa o ran cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.

10. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

- 10.1 Nododd y Grŵp y gellid gwella o ran ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac o ran dealltwriaeth o'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun (yn unol â chanfyddiadau adroddiad IAS 2009).
- 10.2 Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth dda o'r angen i gyfieithu deunyddiau a gyhoeddir gan y Llywodraeth, ond gallai fod gwell dealltwriaeth o faterion megis prif ffrydio'r iaith wrth ddatblygu polisi ac o ran ystyried yr angen i gynnwys amodau ieithyddol mewn grantiau a chontractau. Gellid gwella hefyd o ran y gefnogaeth a roddir yn hyn o beth. Hyd yn oed gyda chyfieithu, byddai'n fanteisiol ar adegau pe bai gan staff ddealltwriaeth gliriach o rôl y Gwasanaeth Cyfieithu a sut orau i ddelio â materion yn ymwneud â chyfieithu.
- 10.3 Cytunwyd, yn gyffredinol, fod yr argymhellion isod sy'n ymwneud â'r cynllun yn debygol o fod yn berthnasol hefyd mewn perthynas â'r safonau'n ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn cael eu cyflwyno yn y man. Nodwyd, yn hyn o beth, y byddai Comisiynydd y Gymraeg ag amrywiaeth eang o bwerau gorfodi yn gallu mynd i'r afael â methiant i gydymffurfio â safonau – ac y gallai methiannau arwyddocaol a systemig i gydymffurfio â'r safonau fod yn andwyol i enw da'r Llywodraeth. Eto, bydd yn bwysig sicrhau cymaint o gefnogaeth â phosibl i'r cynllun ar draws y sefydliad, ymhlith siaradwyr Cymraeg a staff di-Gymraeg fel ei gilydd.

Y nod

- 10.4 Nododd a chytunodd y Grŵp ar y nod a ganlyn mewn perthynas â Chynllun Iaith

Gymraeg y Llywodraeth.

Mae'r Gymraeg yn thema drawsbynciol sy'n berthnasol i bob un o feysydd Llywodraeth Cymru. O'r herwydd, byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ar draws pob un o bortffolios y Gweinidogion ac ar draws gwaith pob un o adrannau Llywodraeth Cymru.

Argymhellion

- I. Dylid cynnwys gwybodaeth am y cynllun yn y modiwl hyfforddiant ar-lein ar 'ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Dylai'r wybodaeth honno gynnwys materion allweddol o ran y Gymraeg y bydd angen i swyddogion eu hystyried wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau.
- II. Mae angen eglurder llwyr ar swyddogion o ran yr ystod o wasanaethau dwyieithog y dylid eu cynnig i'r cyhoedd, ynghyd â chanllawiau priodol i'w cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Dylai Is-adran y Gymraeg sicrhau bod y canllawiau hynny ar gael.
- III. Dylid datblygu proses fewnol lle tynnir sylw at y mater ar lefel uwch er mwyn ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cynllun.
- IV. Dylid cytuno ar weithdrefnau, a'u safoni ar draws Llywodraeth Cymru, fel y bo amodau rhesymol a chymesur yn ymwneud â'r iaith yn cael eu cynnwys pan fo contractau'n cael eu dyfarnu. Dylai'r gweithdrefnau hynny gynnwys gweithdrefnau monitro priodol.
- V. Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ac Uned y Gymraeg gytuno ar weithdrefnau i sicrhau, yn achos pob un o gynlluniau grant y Llywodraeth, fod yr ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r angen i gynnwys amodau rhesymol a chymesur yn ymwneud â'r iaith. Dylai'r gweithdrefnau hynny gynnwys gweithdrefnau monitro priodol.
- VI. Dylai Is-adran y Gymraeg fynd ati, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu, i baratoi canllawiau diwygiedig ar wneud y gorau o'r gwasanaethau cyfieithu, a sicrhau mai'r deunydd mwyaf priodol sy'n cael ei gyfieithu.
- VII. Dylid cytuno ar weithdrefnau clir a chyson er mwyn ymdrin â chwynion lle yr honnir bod methiant i gydymffurfio â'r Cynllun.

11. Perchenogaeth, monitro ac adrodd

- 11.1 Roedd y Grŵp yn teimlo'n gryf bod angen i'r Gymraeg gael ei hyrwyddo gan y rheini sydd ar frig y sefydliad, a bod angen trefniadau monitro ac adrodd digonol er mwyn sicrhau bod atebolrwydd cryf a thryloyw mewn perthynas â chynnydd o ran y Gymraeg yn y sefydliad. Dylid cefnogi ac annog yr arferion da – a'r berchenogaeth o'r iaith – a ddatblygwyd yn ein swyddfeydd yn Aberystwyth a Llandudno.
- 11.2 Mae'r trefniadau presennol sy'n ymwneud ag adrodd ac atebolrwydd braidd yn statig, ac yn seiliedig ar 'Benodau'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol' yn Adroddiad Blyneddol y Llywodraeth ar weithredu'r cynllun iaith Gymraeg a strategaeth y Gymraeg. Gwelwyd gwelliannau yn ddiweddar, gan gynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cynllun, ond at ei gilydd, mae angen proses fwy dynamig, ynghyd ag adroddiadau a thrafodaethau rheolaidd ar gynydd.

- 11.3 Yr unig strwythurau adrodd ffurfiol sydd yn eu lle i fonitro cynnydd yw'r Adroddiad Blyneddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y Comisiynydd erbyn hyn) ac adroddiadau a anfonir at Gyngor Partneriaeth newydd y Gymraeg, i amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg.
- 11.4 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd bob blwyddyn ar gyflawni Strategaeth y Gymraeg ac effaith y gwaith hwnnw o ran defnydd o'r Gymraeg.

Argymhellion

- I. Dylid datblygu strwythurau i adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd (gweler isod), i'r Grŵp Gweithrediadau ac o bosibl i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, cynllun gweithredu corfforaethol y Cynllun Iaith Gymraeg a materion eraill.
- II. Dylai'r Bwrdd fonitro perfformiad y sefydliad o ran gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg. Caiff adroddiad monitro lefel uchel ei gyflwyno bob chwe mis i'r Bwrdd.
- III. Dylid cyflwyno adroddiad cynnydd manylach i'r Grŵp Gweithrediadau bob chwarter i'w alluogi i fonitro cynnydd wrth weithredu argymhellion a Chynllun Gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg, ac wrth weithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Llywodraeth.
- IV. Dylai pob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol enwebu uwch-swyddog i fod yn hyrwyddwr y Gymraeg, a fydd yn cael cefnogaeth cyd-drefnyddion Iaith Gymraeg y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ac, o bosibl, Cymunedau Ymarfer ar gyfer y Gymraeg ym meysydd pob un o'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol.
- V. Dylai pob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol weithio gyda'i hyrwyddwyr Cymraeg a'i huwch-reolwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith, ac o'r angen i weithredu'n ymarferol i gefnogi'r iaith.
- VI. Dylid parhau i baratoi penodau'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol fel yr amlinellir uchod, yn amodol ar ofynion Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â monitro ac adrodd.
- VII. Gan ddibynnu ar natur a llwyddiant y strwythurau adrodd, dylid ystyried sefydlu olynydd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg, i lywio gwelliannau pellach o ran perfformiad mewn perthynas â'r cynllun, y strategaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ac i edrych ar yr holl faterion sydd wedi cael eu hargymhell ar gyfer ystyriaeth bellach drwy gydol yr adroddiad hwn.

12. Y camau nesaf

- 12.1 Gwahoddir y Bwrdd i ystyried ac i gytno ar yr argymhellion uchod a'r cynllun gweithredu yn Atodiad A.
- 12.2 Caiff adroddiadau cynnydd rheolaidd eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Grŵp Gweithrediadau, fel yr amlinellir uchod.

- 12.3 Caiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu er mwyn dwyn sylw holl staff Llywodraeth Cymru at yr adroddiad hwn a'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r argymhellion wedi'u grwpio fel â ganlyn:

GWYRDD: Argymhellion gall cael eu gweithredu'n syth; neu rhai sydd eisoes ar waith;

OREN: Argymhellion bydd yn cael eu gweithredu yn dilyn trafodaethau pellach rhwng Adrannau LIC, neu wedi cynllunio pellach.

<u>Themâ'r Grŵp:</u>	<u>Argymhellion y Grŵp:</u>	<u>Cyfrifoldeb dros weithredu'r argymhelliad:</u>	<u>Amserlen gweithredu'r argymhelliad:</u>	<u>Costau tebygol:</u>	<u>Adroddiad cynnydd a/neu'r camau nesaf</u>
1. Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	1. Dylai'r modiwl hyfforddiant ar lein ar 'godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg', sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, fod yn orfodol ar gyfer pob aelod o staff. [Ymrwymiad yn y Cynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd].	Is-adran y Gymraeg i arwain mewn partneriaeth â RhNgCC ac Eliesha.	Y tymor byr – gorffen paratoi'r modiwl yn derfynol a monitro'r trefniadau erbyn Mawrth 2013.	RhNgCC sy'n cyllido'r modiwl, ar gost o tua £7,000.	Mae modiwl drafft wedi'i ddatblygu gydag Eliesha ac mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Chydgyssylltwyr Dwyieithog wedi rhoi eu sylwadau. Caiff y fersiwn derfynol ei threialu ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae angen penderfynu a ddylid gwneud hyn yn orfodol. Ymhlith y camau i'w cymryd mae: ystyried darparwr arall sy'n gallu darparu data rheoli (yn gysylltiedig â'r elfen orfodol) ac i weithio gydag Eliesha.
	2. Dylai staff Is-adran y Gymraeg barhau i ddarparu sesiwn ar y Gymraeg mewn cyrsiau cynefino ar gyfer staff newydd.	Is-adran y Gymraeg i arwain mewn partneriaeth ag Eliesha.	Ymrwymiad parhaus. Yn dibynnu ar pryd caiff y cyrsiau cynefino eu cynnal.	Dim costau ychwanegol. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau.	Mae staff Is-adran y Gymraeg yn parhau i gynnal sesiynau yn ôl yr angen am sesiynau cynefino. Mae angen adolygu cynnwys y sesiwn ar y cyd ag Eliesha, a thrafod sut i sicrhau ei bod yn cael ei darparu yn Gymraeg yn amlach.
	3. Dylai staff Is-adran y Gymraeg gynnig amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant byr 'Hotshot' ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr – ar gael erbyn Ebrill 2013.	Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau: Costau staff a chostau teithio a chynhaliadau i un aelod o staff o Uned y Gymraeg i fynd i Aberystwyth, Llandudno a swyddfeydd eraill o bosibl ddwywaith y flwyddyn ar y mwyaf.	Mae staff Uned y Gymraeg yn mynd i gynllunio cyfres o sesiynau 'hotshot' i'w cyflwyno yn CP2, Aberystwyth, Llandudno a swyddfeydd eraill o bosibl.

	4. Dylai'r Llywodraeth gynnig mwy o gyrsiau dwys ar ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff allweddol, megis staff sy'n arwain gwaith ar ddatblygu polisi, dyfarnu contractau, neu ariannu trydydd partïon.	PPCS a RhNgCC	Y tymor canolig – erbyn Ebrill 2013.	PPCS i gyllido'r cyrsiau fel rhan o gyllidebau hyfforddi corfforaethol. Bydd angen cytuno ar y costau. Caiff y cyrsiau eu cynnal 4 gwaith y flwyddyn. Amcangyfrifir y costau fel a ganlyn: tua £1400 i gynllunio a £700 y diwrnod i redeg/addasu'r modiwl presennol.	Cynhaliwyd ymarfer i ystyried hyd a lled yr angen, mae angen cytuno ar gytundebau. Mae angen trafod y posibilrwydd o gynnwys ymwybyddiaeth iaith mewn sesiynau hyfforddiant eraill yn ogystal (er enghraifft hyfforddiant pwrcasu).
	5. Dylai staff Is-adran y Gymraeg baratoi erthyglau cyson am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg i'w cyhoeddi ar y fewnrwyd.	Is-adran y Gymraeg i arwain, gan gydweithio â'r Tîm Cyfathrebu Mewnol.	Y tymor byr – yr erthygl gyntaf i ymddangos ym mis Tachwedd 2012.	Dim costau ychwanegol. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido amser y staff.	Mae angen i Uned y Gymraeg a'r Tîm Cyfathrebu Mewnol gytuno ar gyfres o erthyglau i'w cyhoeddi – y nod yw cyhoeddi 4 y flwyddyn.
	6. Dros amser, dylai Is-adran y Gymraeg gynnal a datblygu'r adran ar y fewnrwyd sy'n rhoi arweiniad am y Gymraeg, a chynnig yn yr adran honno arweiniad clir, cynhwysfawr a chryno i staff Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys lle i ddod o hyd i ddogfennau Cymraeg (megis dogfennau polisi AD a ffurflenni mewnol).	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr. Paratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido costau staff Uned y Gymraeg.	Mae angen i Uned y Gymraeg archwilio'r canllawiau, edrych i weld a ydynt yn dal yn gywir ac a oes angen ychwanegu atynt. Mae angen i Uned y Gymraeg chwilio am fersiynau Cymraeg o ddogfennau Adnoddau Dynol (ac ati) a darparu dolenni at y rheini o dudalennau Uned y Gymraeg ar y fewnrwyd, gan sicrhau bod y fersiynau Cymraeg wedi'u diweddarau'n llawn. Mae angen i Uned y Gymraeg baratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Mawrth 2013.
2. 'Gwedd a Naws' Ddwyeithog	1. Dylid cymryd camau i sicrhau bod cyswllt cyntaf y cyhoedd gyda Llywodraeth Cymru ar gael bob amser drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (gan gynnwys derbynfydd, switsfyrddau a llinellau cymorth).	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol i arwain, ar y cyd â Cadw ac, o bosibl, fannau cyswllt eraill o fewn Llywodraeth Cymru.	Y tymor canolig. PPCS a Cadw i gytuno ar ddull gweithredu erbyn Rhagfyr 2012.	Ni ddylai olygu costau ychwanegol os caiff ei gyflwyno'n ddigon graddol.	Mae angen i PPCS sicrhau, wrth benodi pobl i'r swyddi hyn yn y dyfodol (derbynfydd, gan gynnwys safleoedd Cadw, switsfyrddau cyffredinol a llinellau cymorth) bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni. Mae'r Tîm Dyfodol Cynaliadwy yn bwriadu hyfforddi staff Cadw (tymor canolig, 3 blynedd). Mae PPCS wedi recriwtio staff dwyeithog

					ychwanegol ar gyfer mannau allweddol fel derbynfa CP2. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae recriwtio staff dwyieithog i swyddi gwag ac adolygu gofynion contractau cyn yr ymarfer tendro nesaf. Caiff y broses ei chyflwyno'n raddol wrth i swyddi newydd gael eu creu ac wrth i gontractau ddod i ben.
	2. Dylai contractau ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis contractau arlwy, sicrhau darpariaeth briodol yn Gymraeg o ran, er enghraifft, darparu staff sy'n siarad Cymraeg, a bwydlenni, taflenni ac arwyddion dwyieithog.	PPCS i arwain, ar y cyd â Gwerth Cymru.	Wrth i gontractau newydd gael eu dyfarnu.	Dylid eu hariannu drwy'r cyllidebau presennol. Gallai gynyddu rhai contractau ychydig, oherwydd yr angen am gyfieithu. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r costau fod yn uchel iawn a bydd natur y contract yn penderfynu a oes angen cyfieithu. Ni ddylai darparu staff sy'n siarad Cymraeg olygu costau ychwanegol, er y gallai fod yna faterion i'w hystyried.	Mae angen i PPCS a Gwerth Cymru gytuno ar weithdrefnau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae angen cytuno beth yn union y mae hyn yn berthnasol iddo (ee ddylai hyn gynnwys pecynnau brechdanau?). Dylai contractau nodi'n benodol y dylai staff sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio logo Iaith Gwaith. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae gwella'r ddarpariaeth o fewn y contract presennol, lle bo modd erbyn Mawrth 2013; ac adolygu gofynion y contract cyn yr ymarfer caffael nesaf.
	3. Dylid adolygu contractau ar gyfer gwasanaethau 'cyswllt cyntaf' ag unigolion a sefydliadau allanol, megis gwasanaethau diogelwch, er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael yn y Gymraeg.	Pobl, Lleodd a Gwasanaethau Corfforaethol i arwain, ar y cyd â Gwerth Cymru.	Wrth i gontractau newydd gael eu dyfarnu.	Dylid eu hariannu drwy'r cyllidebau presennol. Ni ddylai darparu staff sy'n siarad Cymraeg olygu costau ychwanegol, er y gallai fod yna faterion i'w hystyried o ran cyflwyno'r peth yn raddol.	Mae angen i PPCS a Gwerth Cymru gytuno ar weithdrefnau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai contractau nodi'n benodol y dylai staff sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio logo Iaith Gwaith. Mae angen ystyried a ddylai hyn fod yn berthnasol i wasanaethau ar wahân i wasanaethau diogelwch. Fel yn achos pwynt 2.1 uchod: mae PPCS wedi recriwtio staff dwyieithog ychwanegol ar gyfer mannau allweddol fel derbynfa CP2. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae recriwtio staff dwyieithog i swyddi gwag ac adolygu gofynion contractau cyn yr ymarfer tendro nesaf. Caiff y broses ei chyflwyno'n

					raddol wrth i swyddi newydd gael eu creu ac wrth i gontractau ddod i ben.
	4. Dylai pob arwydd newydd parhaol a dros dro yn adeiladau Llywodraeth Cymru fod yn ddwyieithog.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol – Cyfleusterau	Y tymor byr – ei gyflwyno'n raddol yn unol â'r rhaglen adnewyddu.	Isel – Y polisi ond i'w gymhwyso ar gyfer arwyddion newydd (y gost fydd amser y Gwasanaeth Cyfieithu a chost ychwanegol creu arwyddion dwyieithog yn hytrach na rhai Saesneg yn unig). Ni ddylai'r costau fod yn sylweddol, a bydd yn dibynnu ar faint a chynnwys yr arwydd.	Mae arwyddion newydd parhaol sy'n cael eu creu erbyn hyn yn ddwyieithog yn unol â'r Cynllun Iaith (nid yw hyn yn bosibl bob amser mewn adeiladau sydd ar brydles i Lywodraeth Cymru). Mae'r arwyddion newydd sy'n cael eu gosod ar draws swyddfeydd Parc Cathays un ai ar ffurf llun neu'n ddwyieithog (Cymraeg / Saesneg) lle bo angen testun. Mae amrywiaeth o arwyddion dros dro (ee 'ddim yn gweithio') yn barod i'w defnyddio. Dylid nodi y ceir defnyddio arwyddion uniaith Saesneg mewn argyfwng fel mesur dros dro, ond dim ond tra bo arwyddion dwyieithog priodol yn cael eu llunio. Bydd Uned y Gymraeg yn monitro'r gwaith bob hyn a hyn drwy gynnal archwiliad, a chaiff y casgliadau eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithrediadau. Dyma gamau pellach i PPCS eu cymryd: Newid arwyddion yn raddol wrth i CP2 gael ei adnewyddu. Tîm Cyfleusterau PPCS i gynnal archwiliad o arwyddion uniaith Saesneg ar draws yr ystâd, erbyn Ebrill 2013.

	5. Dylai templedi safonol ar gyfer arwyddion Cymraeg dros dro (megis 'ddim yn gweithio' a 'cyfweliadau' fod ar gael i staff eu lawrlwytho o'r fewnwyd.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu. PPCS – y Tîm Cyfleusterau ar y cyd â'r Tîm Cyfathrebu Mewnol.	Y tymor byr – erbyn Ebrill 2013.	Isel. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido costau staff Uned y Gymraeg. Angen rhywfaint o amser staff y Gwasanaeth Cyfieithu.	Mae'r arfer o osod arwyddion dros dro/ad hoc yn dod i ben, ac arwyddion safonol yn eu disodli, gwaith a reolir gan y Tîm Cyfleusterau a'r Tîm Cyfathrebu Mewnol, yn unol ag egwyddorion brandio corfforaethol. Bydd Uned y Gymraeg, mewn partneriaeth â Cyfleusterau, yn monitor hyn yn ystod archwiliadau. Bydd casgliadau yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredu. Dyma gamau pellach i PPCS eu cymryd: Newid arwyddion yn raddol wrth i CP2 gael ei adnewyddu. Tîm Cyfleusterau PPCS i gynnal archwiliad o arwyddion uniaith Saesneg ar draws yr ystâd, erbyn Ebrill 2013.
	6. Fel arfer, yn achos holl bosteri a thaflenni Llywodraeth Cymru sy'n cael eu harddangos, neu eu dosbarthu i bob aelod o staff mewn unrhyw un o'n swyddfeydd, dylid sicrhau eu bod yn ddwyieithog oni bai ein bod wedi dangos ymlaen llaw na fyddai hynny'n ymarferol nac yn rhesymol.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â PPCS, Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ac Ochr yr Undebau Llafur.	Y tymor byr-canolog. Perthnasol i bob poster a thaflen bwysig a ddosberthir ar ôl cyhoeddi'r canllawiau.	I'w gyllido drwy'r cyllidebau presennol. Ni ddylai'r costau fod yn sylweddol (y gost fydd amser y Gwasanaeth Cyfieithu a chost ychwanegol creu arwyddion dwyieithog yn hytrach na rhai Saesneg yn unig).	Eisoed mae ein posteri mewnol i gyd yn ddwyieithog. Mae angen i Is-adran y Gymraeg ddatblygu canllawiau ar gyfer posteri mewnol gyda'r Is-adran Ymgysylltu ac Arloesi, a chytuno ar weithdrefn i'w dilyn os llunnir poster a thaflen bwysig mewn un iaith yn unig. Mae angen i'r Is-adran Ymgysylltu ac Arloesi gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chymeradwyo gweithdrefnau newydd. Bydd Uned y Gymraeg yn monitro'r gwaith bob hyn a hyn drwy gynnal archwiliad, a chaiff y casgliadau eu cyflwyno i'r Grŵp

					Gweithrediadau. Dim ond am eu hysbysfyrddau eu hunain y mae Ochr yr Undebau Llafur yn gyfrifol.
	7. Dylai gwybodaeth brintiedig sy'n cael ei harddangos mewn lleoedd bwyta a bariau coffi ar gyfer y staff fod yn ddwyieithog.	PPCS	Y tymor byr-canolig. Yn dilyn cytundeb â PPCS ac wrth i gontractau newydd gael eu dyfarnu, fel y bo'n briodol, ee gyda darparwyr arlwygo ac ati.	Dylid ei gyllido drwy'r cyllidebau presennol. Ni fydd y costau yn sylweddol (amser y Gwasanaeth Cyfieithu a chost ychwanegol creu arwyddion dwyieithog yn hytrach na rhai Saesneg yn unig). Bydd y costau yn dibynnu ar faint a chynnwys yr arwydd.	Mae angen i PPCS ddatblygu gweithdrefnau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae angen cytuno ar weithdrefn i'w dilyn os darperir gwybodaeth mewn un iaith yn unig. Bydd Uned y Gymraeg yn monitro'r gwaith bob hyn a hyn drwy gynnal archwiliad, a chaiff y casgliadau eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithrediadau. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae gwella'r ddarpariaeth o fewn y contract presennol, lle bo modd; ac adolygu gofynion y contract cyn yr ymarfer caffael nesaf. Penderfynu ar y terfyn amser erbyn yr ymarfer caffael nesaf.
	8. Dylai cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud drwy systemau cyhoeddi dros yr uchelseinydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyhoeddiadau sydd wedi'u recordio'n barod, fod yn ddwyieithog, oni bai ein bod wedi dangos ymlaen llaw na fyddai hynny'n ymarferol nac yn rhesymol.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol – Cyfleusterau	Y tymor byr-canolig – yn ystod y flwyddyn hyd fis Medi 2013.	Dim costau staff. PPCS i roi cyngor ar gostau cyhoeddiadau dwyieithog wedi'u recordio ymlaen llaw. Mae'r Tîm Cyfleusterau wedi asesu ymarferoldeb a chostau cyhoeddiadau dwyieithog wedi'u recordio ymlaen llaw ar gyfer y larwm tân	Caiff cyhoeddiadau staff Llywodraeth Cymru eu gwneud yn ddwyieithog, drwy'r Tîm Cyfleusterau a'r Tîm Cyfathrebu Mewnol. Mae'r ddau dîm wrthi'n creu banc o gyhoeddiadau dwyieithog sydd wedi'u recordio'n barod. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn nodi bod yn rhaid i iaith y mwyafrif ddod yn gyntaf

				ym Mharc Cathays. Ar hyn o bryd mae'r gost yn rhy uchel, tua £60,000 i newid y cyhoeddiad cyfredol ar gyfer y larwm tân. Nid oes bwriad i'w newid tra bo'r costau mor uchel.	
	9. Dylai Gwobrau Llywodraeth Cymru barhau i wobrwyo gweithgareddau sy'n cefnogi'r iaith.	Y Tîm Cyfathrebu Mewnol i arwain, ar y cyd ag Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol.	Adolygu erbyn Mawrth 2013	Eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb Gwobrau Llywodraeth Cymru, dim costau ychwanegol.	Ar gyfer gwobrau 2012, datblygwyd is-gategori ar brif-ffrydio'r Gymraeg fel rhan o wobwr 'Cyfranogiad a Chymunedau'. Mae angen i'r Tîm Cyfathrebu Mewnol gynnal adolygiad yn dilyn gwobrau 2012.
	10. Dylai'n sianeli cyfathrebu digidol, megis <i>You Tube</i> a <i>Twitter</i> , a'r holl gyfathrebu a wneir ar-lein, gynnwys defnydd priodol o'r Gymraeg a dylent fod yn esiampl i sefydliadau eraill ei dilyn.	Y Tîm Cyfathrebu Allanol	Y tymor canolig-hir.	I'w gyllido drwy'r cyllidebau presennol.	Mae polisi yn cael ei ddatblygu ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu digidol.
3. Y Gymraeg yn y Gweithle	1. Dylid sicrhau bod staff Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (gan gynnwys fersiynau Cymraeg o becynnau meddalwedd, ffurflenni a pholisïau mewnol). Dylai deunyddiau Cymraeg (megis polisïau a ffurflenni at ddefnydd mewnol) fod ar gael drwy un porth ar y fewnrwyd.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr. Paratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Ionawr 2013.	Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido costau staff Uned y Gymraeg. Mae angen ystyried y goblygiadau o ran adnoddau cyfieithu.	Mae angen i Uned y Gymraeg archwilio'r canllawiau, edrych i weld a ydynt yn dal yn gywir ac a oes angen ychwanegu atynt. Mae angen i Uned y Gymraeg chwilio am fersiynau Cymraeg o ddogfennau Adnoddau Dynol (ac ati) a darparu dolenni at y rheini o dudalennau Uned y Gymraeg ar y fewnrwyd. Mae angen i Uned y Gymraeg baratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Ionawr 2013.

	2. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei pholisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Dylai hyn gynnwys materion megis y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd (gan gynnwys papurau ar gyfer cyfarfodydd); negeseuon e-bost mewnol; cofnodion a nodiadau cyfarfodydd; drafftio dogfennau; adolygiadau perfformiad, a chofnodion personol. Dylai'r polisi ystyried materion yn ymwneud â chynaliadwyedd (megis ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol) ond dylai hefyd roi'r neges i staff bod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Dylid edrych ar yr arferion gorau mewn sefydliadau a gwledydd eraill.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â PPCS, y Grŵp Gweithrediadau, Ochr yr Undebau Llafur a Chymdeithas Syr Goronwy Daniel.	Y tymor byr-canolig – paratoi adroddiad y gweithgor erbyn Medi 2013.	Y gweithgor i ystyried y costau, ee y goblygiadau o ran adnoddau cyfieithu ac, yn benodol, yr angen i ystyried y materion hyn yng nghyd-destun gweithdrefnau apelio a thribiwnlysoedd.	Comisiynodd swyddfa Cyffordd Llandudno y canllawiau diweddar gan AGGCC ar weithio'n ddwyieithog. Y camau nesaf: sefydlu gweithgor gyda PPCS, Ochr yr Undebau Llafur a Chymdeithas Syr Goronwy Daniel, i roi adroddiad o fewn chwe mis. Mae angen i'r grŵp ystyried beth sydd i'w drafod, ee goblygiadau o ran cyfarfodydd mewnol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol. Mae angen trafod gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yr effaith ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (mewn perthynas â'r canllawiau a gyhoeddwyd ar y cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Comisiynydd Gwybodaeth). Mae angen trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg a sefydliadau eraill er mwyn sefydlu arferion da. Ymgynghori â staff. Y nod yw datblygu canllawiau ar bob mater (cyfarfodydd mewnol ac ati).
	3. Dylid adolygu'r System Rheoli Perfformiad a'r polisiâu sy'n gysylltiedig â hi er mwyn ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Er enghraifft, os yw'r Gymraeg wedi'i dynodi'n 'sgil allweddol' ar gyfer swydd, dylai'r canllawiau gynghori rheolwyr llinell a deiliaid swyddi am yr angen i gynnwys hynny ar y ffurflen adolygu perfformiad.	PPCS	Y tymor byr – erbyn Mawrth 2013. PPCS i arwain. Efallai y bydd angen ymgynghori â staff, a chanllawiau diwygiedig.	Dim costau ychwanegol.	Cwblhawyd fersiynau Cymraeg o'r cymwyseddau Sgiliau Proffesiynol newydd ym Medi 2012 – at ddefnydd Llywodraeth Cymru, a hefyd fersiwn Gymraeg o fersiwn Adran y DU ar ran Swyddfa'r Cabinet. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae: ymgynghori ymhellach ynghylch arferion gorau, gan gynnwys trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg; ac adolygu canllawiau'r fewnwyd yng ngoleuni'r ymgynghoriad.

					Trefnwyd cyfarfod rhwng y Gwasanaeth Cyfieithu, a PPCS, yn Hydref 2012 i drafod gwella'r canllawiau Adolygu Rheoli Perfformiad i sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu mewn amcanion/tystiolaeth pan fydd swydd yn galw am sgiliau Cymraeg.
	4. Dylid mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gan gynnwys nodi a blaenoriaethu'r gwasanaethau y dylid eu darparu'n ddwyieithog, megis: ⤴ y cymorth a gynigir gan yr Adran Adnoddau Dynol ⤴ Cyfathrebu Mewnol a'r fewnwyd ⤴ TG (gan gynnwys contract Atos) ⤴ Rheoli Cofnodion ⤴ Iechyd ⤴ Galwedigaethol. ⤴ Ffurflenni at ddefnydd y staff (gan gynnwys ffurflenni electronig a ffurflenni ar-lein) ⤴ Hyfforddiant.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â PPCS, y Grŵp Gweithrediadau, Tîm Gweithrediadau'r Gwasanaethau Canolog, Ochr yr Undebau Llafur a Chymdeithas Syr Goronwy Daniel.	Y tymor byr - canolig – paratoi adroddiad y gweithgor o fewn chwe mis ar ôl i'r Bwrdd gytuno i'r argymhellion hyn.	Y gweithgor i ystyried y costau.	Gall y gweithgor a sefydlwyd dan argymhelliad 2 uchod ystyried hyn hefyd. Neu, fel arall, fe all Adrannau perthnasol cael eu comisiynu i ddrafftio papur safbwynt i esbonio sut y byddent yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae gwasanaeth newyddion y fewnwyd yn gwbl ddwyieithog erbyn hyn.

	5. Dylid gweithredu mewn ffordd strategol o ran yr hyfforddiant a gynigir i'r staff, gan anelu at sicrhau bod y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddiant (a ddarperir ar draws Llywodraeth Cymru neu'n lleol, ym meysydd gwaith y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol) ar gael yn Gymraeg, gan ddibynnu ar y galw, a dylid mynd ati o bryd i'w gilydd i fesur y galw am gyrsiau o'r fath. Dylai hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg fod o'r un safon â hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg.	PPCS a RhNgCC	Y tymor byr – erbyn Ebrill 2013.	PPCS i'w cynnwys fel rhan o'r contract hyfforddi canolog.	Mae pob hyfforddiant gorfodol dull dosbarth ar gael yn Gymraeg ac wedi'i drefnu fel rhan o'r rhaglen ddysgu. Nodwyd 10 cwrs mwyaf poblogaidd Eliesha ac maent yn cael eu cyfieithu ar hyn o bryd. Byddant ar gael fel rhan o'r rhaglen ddysgu o Ionawr 2013. Ymhlith y camau i'w cymryd mae marchnata cyrsiau Cymru o Hydref 2012 a bydd angen adolygu nifer y bobl sy'n mynd arnynt ym mis Hydref 2013. Mae angen cytuno ynghylch pa fath o gyrsiau hyfforddi i'w cynnwys – cyrsiau Llywodraeth Cymru/Eliesha? Mae angen cytuno ar bolisi ar ei gwneud yn ymarferol cynnal cyrsiau Cymraeg o ran nifer y bobl sydd am fynd arnynt ac ati.
	6. Dylai Cysill, Cysgair a rhyngwynebau Cymraeg <i>Microsoft Office</i> ac ochr Gymraeg Mewnwyd Llywodraeth Cymru fod ar gael yn hwylus i'r staff. Dylai Is-adran y Gymraeg sicrhau bod canllawiau ar gael ar sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â PPCS.	Y tymor byr. Paratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Rhagfyr 2012.	Ni ragwelir y costau ychwanegol yn y tymor byr, gan fod y feddalwedd hon eisoes ar gael i staff Llywodraeth Cymru. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido amser staff i baratoi canllawiau.	Mae angen i Uned y Gymraeg archwilio'r canllawiau a'r cymorth a pharatoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Rhagfyr 2012.
	7. Dylai adnoddau megis <i>Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu</i> ac adnoddau eraill er mwyn helpu i wella sgiliau drafftio, megis Arddulliadur etc y Gwasanaeth Cyfieithu, fod ar gael i'r staff.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu.	Ar unwaith. Paratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen am ganllawiau/cymorth erbyn Rhagfyr 2012.	I'w gyllido drwy'r cyllidebau presennol. Dim costau ychwanegol o ran adnoddau fel yr Arddulliadur. Eisoes mae gan Uned y Gymraeg stoc o <i>Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu</i> (£5.99 yr un). drwy Brosiect Gweithio Dwyieithog I. Mae <i>Geiriadur yr Academi</i> ar gael ar-lein yn	Mae angen i Uned y Gymraeg drefnu bod copiau o <i>Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu</i> yn cael eu dosbarthu. Bydd Uned y Gymraeg yn adolygu ei thudalennau ar adnoddau cymorth dwyieithog ar y fewnwyd gan ychwanegu mwy o gymorth/adnoddau. Mae angen i Uned y Gymraeg archwilio'r canllawiau a'r deunydd cymorth, a pharatoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Rhagfyr 2012.

				rhad ac am ddim erbyn hyn. Mae modd lawrlwytho adnoddau eraill hefyd yn rhad ac am ddim.	
	8. Dylai Is-adran y Gymraeg, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu a chydweithwyr ym maes TGCh, ystyried a fyddai'n ymarferol cynnig meddalwedd cyfieithu Cymraeg pwrpasol, megis pecyn cyfieithu Canolfan Bedwyr, i staff, neu fanciau o gofau cyfieithu sy'n cynnig testun cyfatebol wedi'i alinio yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Is-adran y Gymraeg i arwain, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyfieithu.	Y tymor byr-canolig.	Y costau tebygol i'w trafod gyda Chanolfan Bedwyr.	Mae angen i Uned y Gymraeg a'r Gwasanaeth Cyfieithu gwrdd â Chanolfan Bedwyr i drafod y posibilrwydd o addasu eu pecyn cyfieithu ar gyfer Llywodraeth Cymru.

	9. Dylai cynhyrchion a fydd yn galluogi eraill i'w hadnabod fel siaradwyr Cymraeg fod ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg. Gallai hyn gynnwys llinynnau gwddf (<i>lanyards</i>) ar gyfer pasys diogelwch, arwyddion desg, a bathodynau.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr – cyn gynted â phosibl. Opsiynau ar gyfer adnoddau eraill i'r hystyried erbyn Ebrill 2013.	Dim costau ychwanegol i ddefnyddio llinynnau gwddf laith Gwaith. Llinynnau gwddf eraill i'w cyllido drwy'r cyllidebau presennol.	Yn sgil penderfyniad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg i barhau i ddefnyddio llinynnau gwddf Bwrdd yr Iaith gynt (logo Iaith Gwaith) ar draws swyddfeydd Llywodraeth Cymru (ac eithrio Llandudno, sy'n mynd i ddefnyddio ei system 'goleuadau traffig' ei hun i wahaniaethu rhwng dysgwyr a'r rheini sy'n rhugl), mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi stoc o 500 o linynnau gwddf laith Gwaith i Uned y Gymraeg yn ddiweddar i'w dosbarthu ar draws swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Mae angen i Uned y Gymraeg roi gwybod i staff drwy erthygl ar y dudalen newyddion fod llinynnau gwddf laith Gwaith ar gael erbyn hyn, ac y bydd angen i swyddfeydd wneud eu trefniadau eu hunain os ydynt am ddefnyddio gwahanol fathau o linynnau gwddf/arwyddion – ee system goleuadau traffig Llandudno. Uned Iaith i ystyried creu adnoddau eraill, megis arwyddion desg.
	10. Dylai Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ystyried treialu timau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn 'dimau dwyieithog dynodedig', y gellid annog dysgwyr Cymraeg i ymuno â nhw, mewn modd wedi'i reoli, er mwyn gwella'u sgiliau yn y Gymraeg, rhoi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, a galluogi'r timau hynny i ddarparu gwasanaethau Cymraeg cyson, o safon uchel i'r cyhoedd. Os nad oes timau o'r fath ym maes gwaith Cyfarwyddiaeth Gyffredinol, dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i'w sefydlu.	Y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol i arwain.	Y tymor canolig-hir.	Dim costau ychwanegol.	Mae angen i Gyfarwyddiaethau Cyffredinol arwain hyn, ar sail asesiad o ofynion sgiliau dwyieithog. Bydd angen cael cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ynghylch deddfwriaeth arall o ran cyfle cyfartal. Mae CyMAL wedi peilota prosiect o'r fat hers sawl blwyddyn, ac yn enghraifft o arfer dda i adrannau eraill.

	11. Er mwyn rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau Cymraeg, dylid cefnogi ac hwyluso secondiadau i sefydliadau neu dimau yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu i weithio ar brosiectau lle mae angen sgiliau yn y Gymraeg,	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	Y tymor byr - PPCS i allu trefnu'r secondiadau hyn erbyn Ebrill 2013.	PPCS i roi cyngor ar y costau. Bydd staff sydd ar secondiad i sefydliadau eraill yn parhau ar gyflogres Llywodraeth Cymru. Bydd y Llywodraeth yn adfer costau eu cyflog drwy anfon anfoneb i'r sefydliadau am y costau hynny.	Mae angen i PPCS gynnal ymarfer byr i weld pa mor realistig yw hyn, gan roi ystyriaeth i bolisi Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil, a'r goblygiadau o ran cost ac ati. Gwneir hyn fel rhan o adolygiad ehangach o secondiadau a chan ystyried y manteision i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi cyfleoedd i staff dwyieithog o sefydliadau eraill ymuno â'r Llywodraeth a dod â sgiliau dwyieithrwydd i dimau – gyda'r bwriad o ddatblygu trefniadau ar gyfer secondiadau mewn sefydliadau sy'n gweithio drwy'r Gymraeg, ee Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Gwynedd, yr Urdd, Mentrau Iaith, S4C, Sain Ffagan, sefydliadau academiaidd. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol gydag arweinydd Polisi Secondiadau PPCS. Mae'r Polisi Secondiadau cyfredol, sy'n ddogfen weithdrefnol, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae angen i Uned y Gymraeg ystyried ychwanegu at y datganiad polisi ar hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg ar Raglen Cyfnewid Pobl Cymru, unwaith y bydd yn fyw. Mae angen i Uned y Gymraeg ddechrau trafod gyda PPCS – Strategaeth, ynghylch cydweithio i greu cyfleoedd secondio i staff. Gellid ystyried ôl-lenwi swydd os yw secondiadau tymor byr yn para dros fis. Trefnwyd cyfarfod rhwng y Gwasanaeth Cyfieithu, a PPCS, yn Hydref 2012 i drafod ychwanegu at ganllawiau rheoli perfformiad i hyrwyddo secondiadau mewn sefyllfaoedd Cymraeg.
4. Sgiliau dwyieithog, cynllunio'r gweithlu a chysiau Cymraeg i Oedolion	1. Rhaid i'n hanghenion sgiliau dwyieithog fod yn rhan annatod o'n strategaeth Cynllunio'r Gweithlu ac o gasglu data.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	Y tymor byr – rhan o'r strategaeth i gynllunio'r gweithlu.	Dim costau ychwanegol.	Bellach, mae'n ofynnol i ymgeiswyr llwybr carlam sy'n ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru allu siarad Cymraeg neu fod yn barod i ymrwymo i ddysgu'r iaith. Datblygiad diweddar yw hyn y cytunwyd arno gyda

					Chomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae'n un o dargedau cynllun gweithredu Cynllun I Iaith cyfredol Llywodraeth Cymru. Cesglir data am hyn yn fuan a'u dadansoddi ym mis Hydref 2012. Sgiliau'r Gymraeg yw un o'r prif elfennau. Fel un o'r camau pellach i PPCS eu cymryd, mae angen i Mark Pruce gyd-drafod ymhellach gydag Uned y Gymraeg ac adrodd yn ôl/diweddaru targedau yn dilyn Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio'r Gweithlu sydd i'w gynnal erbyn canol Tachwedd 2012.
	2. Mae angen i Gyfarwyddiaethau Cyffredinol roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'u hanghenion ieithyddol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan fynd i'r afael hefyd ag unrhyw wendidau.	Pob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol.	Y tymor byr-canolig – rhan o strategaeth cynllunio'r gweithlu.	Dim costau ychwanegol.	Mae eisoes yn un o ofynion VARF bod rheolwyr llinell yn asesu anghenion iaith. Mae angen i Gyfarwyddiaethau Cyffredinol fynd i'r afael â gofynion ieithyddol eu meysydd eu hunain ac adolygu'n rheolaidd ddata sgiliau dwyieithog yn eu meysydd eu hunain. Gellir ystyried defnyddio adnodd diagnostig CBAC i benderfynu ar anghenion ieithyddol swyddi. Gall Comisiynydd y Gymraeg roi cyngor ar arferion gorau.
	3. Dylai data am sgiliau yn y Gymraeg fod ar gael i'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, a dylid strwythuro'r data hynny mewn modd sy'n eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynghylch sgiliau dwyieithog.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	Y tymor byr.	Dim costau ychwanegol.	Gall TG Adnoddau Dynol ddarparu data, ond mae angen eu cyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi Cyfarwyddiaethau Cyffredinol i wybod i ba raddau y maent yn bodloni'r gofynion yn argymhellion 1 a 2. Mae TG Adnoddau Dynol yn hapus i roi'r data i unigolyn penodol yn Uned y Gymraeg i'w hanfon ymlaen at Gyfarwyddiaethau Cyffredinol.

	4. Dylai Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol, ac yn benodol Partneriaid Busnes AD, gael hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn perthynas â recriwtio a'r Gymraeg, a hynny er mwyn iddynt feithrin gwell dealltwriaeth yn hyn o beth. Er enghraifft, ystyried yr anawsterau sy'n wynebu'r rheini sydd am recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a phenderfynu a yw hon yn broblem y gellir mynd i'r afael â hi drwy, er enghraifft, recriwtio'n allanol neu drwy ddatblygu carfan o staff sy'n siarad Cymraeg a fyddai'n gallu symud i swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg ar gyfer tasgau a fydd yn para am amser penodol.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cydweithrediad â Chyfarwyddiaethau Cyffredinol.	Y tymor canolig-hir.	Dim costau ychwanegol.	Rhan o gynllunio'r gweithlu.
	5. Dylid adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion, gan ganolbwyntio ar anghenion busnes, ac ar ddealltwriaeth o ddisgwyliadau'r sefydliad o ran dysgwyr, cefnogaeth i ddysgwyr, ac achredu.	RhNgCC i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr – y contract ar waith o fis Medi 2013.	Dyrannwyd £200,000 y flwyddyn ar gyfer y contract newydd o gyllideb RhNgCC.	Cynhaliwyd cyfarfod ym Medi 2012 gydag Andrew Pryse, rheolwr y contract Cymraeg i Oedolion, ar y gwaith i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion a dyluniad a chysyniad y cwrs. Ymhlith y camau i'w cymryd mae datblygu'r cwrs ymhellach ar y cyd ag Uned y Gymraeg erbyn y dyddiad targed, gan gynnwys achredu.
	6. C Dylid ystyried rhoi rhagor o gyfleoedd i staff fynychu cyrsiau dwys Cymraeg i Oedolion. Bydd angen i adrannau gefnogi hyn drwy ryddhau staff i fynd i'r cyrsiau hynny.	RhNgCC i arwain, ar y cyd â Chyfarwyddiaethau Cyffredinol.	Y tymor canolig, ee cyfle i ryw 3 o bobl o bob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol ddilyn cyrsiau dwys. Cyfanswm o 20. I'w gyflwyno ym Mawrth 2013.	Dyrannwyd £200,000 y flwyddyn ar gyfer y contract newydd o gyllideb RhNgCC.	Gweler pwynt 4.5 uchod. Contract newydd o fis Medi 2013.

	7. Dylai siaradwyr Cymraeg rhugl, dihyder gael eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, drwy fynd ar gyrsiau gloywi iaith. Dylid hefyd roi cefnogaeth iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.	RhNgCC ac Uned y Gymraeg, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu.	Y tymor byr.	Dyrannwyd £200,000 y flwyddyn ar gyfer y contract newydd o gyllideb RhNgCC.	Gweithredir y contract newydd yn y dosbarth, yn y gymuned a thrwy gyrsiau dwys. Gwneir gwaith ar gyrs mentora RhNgCC erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn i'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn rhugl allu helpu dysgwyr. Mae angen i Uned y Gymraeg ddatblygu syniadau o ran cymorth yn y gwaith, gan ddysgu o brofiad swyddfa Cyffordd Llandudno (ee dosbarthiadau coffi a chlone). Hefyd mae angen sicrhau bod cymorth TGCh (Cysgeir ac ati), adnoddau ar-lein, llinynnau gwddf, mentoriaid, gwasanaeth gwirio testun y Gwasanaeth Cyfieithu ac ati ar gael.
	8. Dylai'r Adran AD ystyried a fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio elfen gyntaf adnodd diagnostig CBAC fel cam gorfodol o'r broses recriwtio am swyddi. Dylai'r Adran AD hefyd baratoi adroddiadau am gyfran y swyddi gwag a hysbysebiri lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. [Mae defnyddio'r adnodd diagnostig yn ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol.]	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd ag Uned y Gymraeg.	Y tymor canolig.	Gallai integreiddio'r adnodd diagnostig i system ORMS fod yn gost ychwanegol. Mae angen cael gwybod beth yw'r union gostau.	Mae Pennaeth Uned y Gymraeg yn aelod o weithgor adnodd diagnostig Cymraeg CBAC. Mae angen gofyn i CBAC am yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae angen trafod gyda PPCS cyn gynted â phosibl. Mater i PPCS arwain yn ei gylch yw hwn. Byddai angen treialu'r adnodd diagnostig. Ymhlith y camau i PPCS eu cymryd mae astudiaeth ddichonoldeb i'w chynnal yn erbyn cefndir o ddatblygiadau perthnasol eraill erbyn Gorffennaf 2013, ee Disodli contract ORMS sy'n dod i ben ym mis Hydref 2013. A yw adnodd diagnostig Windows yn gydnaws? Yr angen i ddeall y fanyleb/ochr dechnegol yr adnodd diagnostig Angen cyfarfod gyda Sue Calnan/Debra Jones, PPCS, i glywed eto am allu SAP i gofnodi data am y swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol iddynt, y swyddi lle byddai'r Gymraeg yn ddymunol, a'r swyddi nad ydynt yn galw am sgiliau Cymraeg.

	9. Dylai'r Gwasanaeth Cyfieithu weithio gyda rheolwyr llinell ar draws Llywodraeth Cymru i osod profion ac asesu sgiliau iaith Gymraeg ysgrifenedig pan fo'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd. Gallai elfen gyntaf adnodd diagnostig CBAC hefyd helpu yn hyn o beth.	Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu – ac Uned y Gymraeg (parthed yr adnodd diagnostig).	Y tymor canolig.	Dim costau ychwanegol.	Mae Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu wedi cytuno i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu wedi gweithio gyda rheolwyr llinell mewn amrywiol feysydd er mwyn dyfeisio profion priodol ar gyfer asesu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio (ee staff swyddfeydd preifat, staff y llyfrgell, golygyddion y fewnrwyd). Ymhlith y camau i'r Gwasanaeth Cyfieithu eu cymryd mae: rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth ar dudalen newyddion y fewnrwyd a monitro'r galw; a gweithio gyda Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol i gynnig yr opsiwn i reolwyr llinell sy'n recriwtio, erbyn Tachwedd 2012. Mae angen gofyn i CBAC am yr wybodaeth ddiweddaraf a thrafod ail elfen yr adnodd diagnostig (sy'n profi pa mor rhugl yw unigolyn yn y Gymraeg). Sut gellir ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau hyn? A yw'r lefel hon o brofion yn creu rhwystr fwy i siaradwyr Cymraeg, o gymharu â'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg? Os felly, a yw hyn

					yn gwahaniaethu yn eu herbyn? Mater i PPCS arwain yn ei gylch yw hwn. Mae'r prawf yn gysylltiedig â gofynion y swydd.
	10. Ymhen dwy flynedd i ddyddiad y papur hwn, dylai'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol dalu am gyfieithiadau i'r Saesneg o ddeunydd sy'n cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i dynnu sylw at yr angen i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg i dimau sy'n derbyn deunydd Cymraeg yn rheolaidd, er mwyn helpu i leihau'r angen i gyfieithu'r deunydd hwnnw i'r Saesneg at ddefnydd mewnol. Cyn cymeradwyo'r polisi hwn yn derfynol, dylid mynd ati tua diwedd y cyfnod o ddwy flynedd i gynnal adolygiad o'r sefyllfa o ran cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â PPCS, y Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfarwyddiaethau Cyffredinol.	O fewn 2 flynedd – erbyn Hydref 2014.	I'w gyllido gan gyllidebau'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, er y dylai gwneud defnydd da o staff sy'n siarad Cymraeg leihau'r costau hyn – i Gyfarwyddiaethau Cyffredinol a Llywodraeth Cymru yn gyffredinol (o gymharu â'r gwariant cyfredol). Y Gwasanaeth Cyfieithu i roi cyngor ynghylch y gwariant cyfredol ar y math hwn o gyfieithu.	Mae angen trafod y manylion gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu, gan gynnwys y sefyllfa pan nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio â deunydd Cymraeg (hyd yn oed ar ôl 2 flynedd). Mae angen trafod gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu hefyd gasglu data ar gyfer Cyfarwyddiaethau Cyffredinol am y ceisiadau a dderbynnir gan y Gwasanaeth Cyfieithu am gyfieithiadau Cymraeg i Saesneg at ddibenion mewnol.

5. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	1. Dylid cynnwys gwybodaeth am y cynllun yn y modiwl hyfforddiant ar-lein ar 'ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Dylai'r wybodaeth honno gynnwys materion allweddol o ran y Gymraeg y bydd angen i swyddogion eu hystyried wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr.	RhNgCC sy'n cyllido'r modiwl, ar gost o tua £7,000.	Datblygwyd modiwl drafft a derbyniwyd sylwadau gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Chydgysylltwyr Dwyieithog. Caiff y fersiwn derfynol ei threialu ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg. Gweler 1.1 uchod. Mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am y cynllun.
	2. Mae angen eglurder llwyr ar swyddogion o ran yr ystod o wasanaethau dwyieithog y dylid eu cynnig i'r cyhoedd, ynghyd â chanllawiau priodol i'w cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Dylai Is-adran y Gymraeg sicrhau bod y canllawiau hynny ar gael.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor byr. Paratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol. Is-adran y Gymraeg i ddarparu'r adnoddau a chyllido costau staff Uned y Gymraeg.	Mae angen i Uned y Gymraeg archwilio'r canllawiau, edrych i weld a ydynt yn dal yn gywir ac a oes angen ychwanegu atynt. Mae angen i Uned y Gymraeg chwilio am fersiynau Cymraeg o ddogfennau Adnoddau Dynol (ac ati) a darparu dolenni at y rheini o dudalennau Uned y Gymraeg ar y fewnwyd. Mae angen i Uned y Gymraeg baratoi papur i ystyried hyd a lled yr angen erbyn Mawrth 2013.
	3. Dylid datblygu proses fewnol lle tynnir sylw at y mater ar lefel uwch er mwyn ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cynllun.	Y Grŵp Gweithrediadau; Is-adran y Gymraeg	Y tymor canolig – cytuno ar y broses o dynnu sylw ar lefel uwch erbyn March 2013.	Dim costau ychwanegol.	Cyflwynodd Uned y Gymraeg bapur i'r Grŵp Gweithrediadau ym Mawrth 2012 i nodi rôl bosibl ar gyfer y Grŵp, gan gynnwys helpu i dynnu sylw ar lefel uwch. Mae angen i Uned y Gymraeg drafod ymhellach â chadeirydd y Grŵp Gweithrediadau. Mae angen i'r Uned Gwynion Ganolog gyfrannu at y broses gan mai nhw, bellach, sy'n delio â chwynion am fethu â chydymffurfio â'r Cynllun iaith.
	4. Dylid cytuno ar weithdrefnau, a'u safoni ar draws Llywodraeth Cymru, fel y bo amodau rhesymol a chymesur yn ymwneud â'r iaith yn cael eu cynnwys pan fo contractau'n cael eu dyfarnu. Dylai'r gweithdrefnau hynny gynnwys gweithdrefnau monitro priodol.	Gwerth Cymru i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr-canolig – cytuno ar weithdrefnau erbyn Ebrill 2013.	Dim costau ychwanegol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru – er y bydd angen i waith y contract gynnwys costau'n ymwneud â'r Gymraeg, fel y bo'n briodol.	Mae angen i Uned y Gymraeg barhau i drafod gyda Gwerth Cymru i sicrhau bod hyn yn digwydd.

	5. Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ac Uned y Gymraeg gytuno ar weithdrefnau i sicrhau, yn achos pob un o gynlluniau grant y Llywodraeth, fod yr ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r angen i gynnwys amodau rhesymol a chymesur yn ymwneud â'r iaith. Dylai'r gweithdrefnau hynny gynnwys gweithdrefnau monitro priodol.	Canolfan Ragoriaeth Grantiau i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr-canolig – cytuno ar weithdrefnau erbyn Rhagfyr 2012.	Dim costau ychwanegol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru – er y bydd angen i waith y rhoddir grant ar ei gyfer gynnwys costau'n ymwneud â'r Gymraeg, fel y bo'n briodol.	Mae angen i Uned y Gymraeg barhau i drafod gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i amodau'n ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas â grantiau a roddir i'r Sector Preifat.
	6. Dylai Is-adran y Gymraeg fynd ati, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfieithu, i baratoi canllawiau diwygiedig ar wneud y gorau o'r gwasanaethau cyfieithu, a sicrhau mai'r deunydd mwyaf priodol sy'n cael ei gyfieithu.	Y Gwasanaeth Cyfieithu i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr – cytuno ar fethodoleg newydd i'w gweithredu cyn Ebrill 2013. Canllawiau newydd ar gael erbyn Gorffennaf 2013.	Dim costau ychwanegol.	Mae cyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal rhwng Uned y Gymraeg a'r Gwasanaeth Cyfieithu. Ymhlith y camau i'r Gwasanaeth Cyfieithu eu cymryd mae: cynnal adolygiad o'r fethodoleg bresennol ar gyfer blaenoriaethu cyfieithu cyffredinol a deddfwriaethol, a chynnig methodoleg ddiwygiedig.
	7. Dylid cytuno ar weithdrefnau clir a chyson er mwyn ymdrin â chwynion lle yr honnir bod methiant i gydymffurfio â'r Cynllun.	Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol (yr Uned Gwynion Ganolog) ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr – cytuno ar weithdrefnau erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol.	Mae Uned y Gymraeg wedi cwrdd â'r Uned Gwynion Ganolog i drafod hyn. Mae angen trafod ymhellach, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg.
6. Perchenogaeth, monitro ac adrodd	1. Dylid datblygu strwythurau i adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd (gweler isod), i'r Grŵp Gweithrediadau ac o bosibl i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol, mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, cynllun gweithredu corfforaethol y Cynllun Iaith Gymraeg a materion eraill.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd ag Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol, y Grŵp Gweithrediadau, Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol.	Tymor byr – dulliau adrodd i'w cytuno erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol.	Ym mis Mawrth 2012 cyflwynodd Uned y Gymraeg bapur i'r Grŵp Gweithrediadau i dynnu sylw at rôl bosibl ar gyfer y Grŵp. Y camau nesaf: Uned y Gymraeg i lunio rhestr o faterion y gellid rhoi adroddiad i Fwrdd y Grŵp Gweithrediadau amdanynt. Mae angen trafod hefyd gyda Phwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ynghylch yr hyn a allai fod o ddiddordeb iddynt. Ymhlith y camau i'w cymryd mae: coladu data ar y cynnydd mewn swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol iddynt ac asesu'r

					effaith gyfatebol ar y gofyniad i gyfieithu i'r Saesneg at ddibenion mewnol. Mae angen i Uned y Gymraeg drefnu cyfarfod gyda Chadeiryddion y Grŵp Gweithrediadau o fewn mis i gyfarfod Bwrdd mis Hydref, i drafod amserlenni.
	2. Dylai'r Bwrdd fonitro perfformiad y sefydliad o ran gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg. Caiff adroddiad monitro lefel uchel ei gyflwyno bob chwe mis i'r Bwrdd.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd ag Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol.	Tymor byr – dulliau adrodd i'w cytuno erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol.	Mae angen i Uned y Gymraeg baratoi adroddiad unwaith y cytunir ar yr argymhellion hyn. Mae angen i Uned y Gymraeg lunio rhestr o'r materion y gellid rhoi adroddiad i'r Bwrdd amdanynt (gweler argymhelliad 6.1). Mae angen i Uned y Gymraeg drefnu cyfarfod gyda Chadeiryddion y Grŵp Gweithrediadau o fewn mis i gyfarfod Bwrdd mis Hydref, i drafod amserlenni.
	3. Dylid cyflwyno adroddiad cynnydd manylach i'r Grŵp Gweithrediadau bob chwarter i'w alluogi i fonitro cynnydd wrth weithredu argymhellion a Chynllun Gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg, ac wrth weithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Llywodraeth.	Is-adran y Gymraeg i arwain, ar y cyd â'r Grŵp Gweithrediadau.	Tymor byr – dulliau adrodd i'w cytuno erbyn Mawrth 2013.	Dim costau ychwanegol.	Ym mis Mawrth 2012 cyflwynodd Uned y Gymraeg bapur i'r Grŵp Gweithrediadau i dynnu sylw at rôl bosibl ar gyfer y Grŵp yn y dyfodol. Mae angen i Uned y Gymraeg lunio rhestr o'r materion y gellid rhoi adroddiad i'r Grŵp Gweithrediadau amdanynt (gweler argymhelliad 6.1).
	4. Dylai pob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol enwebu uwch-swyddog i fod yn hyrwyddwr y Gymraeg, a fydd yn cael cefnogaeth cyd-drefnyddion Iaith Gymraeg y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol ac, o bosibl, Cymunedau Ymarfer ar gyfer y Gymraeg ym meysydd pob un o'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol.	Y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol i arwain, ar y cyd ag Uned y Gymraeg.	Y tymor byr – pennu hyrwyddwyr erbyn Rhagfyr 2012.	Dim costau ychwanegol.	Mae angen i'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol enwebu unigolyn, unwaith y bydd y Bwrdd wedi cytuno ar yr argymhellion hyn. Mae angen i Uned y Gymraeg ddrafftio cylch gorchwyl ar gyfer rôl yr hyrwyddwr.

	5. Dylai pob Cyfarwyddiaeth Gyffredinol weithio gyda'i hyrwyddwyr Cymraeg a'i huwch-reolwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith, ac o'r angen i weithredu'n ymarferol i gefnogi'r iaith.	Y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Y tymor byr.	Dim costau ychwanegol.	Mae angen i Uned y Gymraeg ddrafftio cylch gorchwyl ar gyfer rôl yr hyrwyddwr.
	6. Dylid parhau i baratoi penodau'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol fel yr amlinellir uchod, yn amodol ar ofynion Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â monitro ac adrodd.	Y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol i arwain, ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg.	Yn flynyddol.	Dim costau ychwanegol.	Dilynwyd y dull hwn ar gyfer adroddiad blynyddol 2011, a chafwyd adborth cadarnhaol. Uned y Gymraeg ddylai gomisiynu yn y dyfodol – yn dibynnu ar sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar adroddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011/12. Camau pellach i'r Cyfarwyddiaethau Cyffredinol eu cymryd: Mae angen i bob cynllun gweithredu ddilyn yr un fformat/templod.
	7. Gan ddibynnu ar natur a llwyddiant y strwythurau adrodd, dylid ystyried sefydlu olynydd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg, i lywio gwelliannau pellach o ran perfformiad mewn perthynas â'r cynllun, y strategaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.	Is-adran y Gymraeg	Y tymor canolig-hir.	Dim costau ychwanegol.	Mae angen i Uned y Gymraeg ystyried hyn ar ôl ystyried argymhelliad 6 (1-3) uchod ac ystyried p'un a yw'r camau uchod yn awgrymu bod angen Grŵp Gorchwyl a Gorffen trosfwaol.

Data a ddarparwyd gan System TG Adnoddau Dynol ar sgiliau Cymraeg staff Llywodraeth Cymru: 30 Medi 2012

Department	0	1	2	3	4	5	Total	No record	Total Staff
Business, Enterprise, Tech and Science	556	350	77	61	97	226	1,367	71	1,438
Department for Education & Skills	300	133	29	24	33	112	631	44	675
Dept for Health, Social Serv & Children	378	142	27	21	24	54	646	41	687
Legal Services Department	49	37	4	8	8	27	133	8	141
Local Government & Communities	351	126	25	22	28	50	602	26	628
People, Places & Corporate Services	281	92	11	16	19	76	495	31	526
Permanent Secretary's Division	53	21	5	1	1	16	97	15	112
Strategic Planning, Finance&Performance	370	130	20	18	17	71	626	46	672
Sustainable Futures	332	148	26	33	33	86	658	87	745
Total	2,670	1,179	224	204	260	718	5,255	369	5,624

Pay band	0	1	2	3	4	5	Total	No record	Total Staff
Band TS	521	222	37	38	55	128	1,001	139	1,140
Band C	505	245	41	48	72	157	1,068	31	1,099
Band D	650	261	61	34	58	186	1,250	34	1,284
Band E	461	216	46	36	38	120	917	35	952
Band F	352	148	26	25	19	79	649	21	670
Band G	77	38	3	13	9	19	159	5	164
SCS	68	28	7	7	4	18	132	10	142
Sec/Ungraded	36	21	3	3	5	11	79	94	173
Total	2,670	1,179	224	204	260	718	5,255	369	5,624

Region	0	1	2	3	4	5	Total	No record	Total Staff
Cardiff	1,460	487	88	73	88	261	2,457	175	2,632
Mid Wales	136	145	28	32	35	91	467	22	489
North Wales	110	112	23	28	50	208	531	34	565

Other	23	21	6	1	4	14	69	13	82
South East Wales	751	297	60	46	46	82	1,282	85	1,367
South West Wales	190	117	19	24	37	62	449	40	489
Total	2,670	1,179	224	204	260	718	5,255	369	5,624

Staff able to speak Welsh at levels 3 to 5 by Division data as at 30 September 2012 (extracted from frozen database)

		Total Staff welsh speaking skills levels 3 to 5	Headcount	Percentage
Business, Enterprise, Tech and Science	Adv Materials & Manufacturing Sector	6	24	25.0
	Agriculture, Fisheries & Rural Strategy	32	97	33.0
	BETS Comms & Marketing	1	15	6.7
	BETS Marketing	11	55	20.0
	Business Services Improvement Division	2	13	15.4
	Business, Enterprise, Tech and Science	3	15	20.0
	CAP Planning Division	15	52	28.8
	Chief Scientific Adviser	3	25	12.0
	Construction Sector	4	5	80.0
	Creative Sector	5	22	22.7
	Development	17	59	28.8
	Digital Wales	0	8	0.0
	Director Delivery	4	44	9.1
	Director Strategy	0	4	0.0
	Economic Analysis	2	5	40.0
	Energy & Environment Sector	5	17	29.4
	Entrepreneurship and Business Info	32	72	44.4
	EU Policy & Funding	2	9	22.2
	European Programmes Group	0	1	0.0
	Finance & Corporate Services	3	29	10.3
	Financial & Professional Services Sector	1	17	5.9
	Food and Market Development	16	30	53.3
	ICT Infrastructure	1	16	6.3

	ICT Sector	5	31	16.1
	Innovation Team	4	52	7.7
	Life Sciences Sector	3	18	16.7
	Major Projects	2	22	9.1
	Monitoring & Due Diligence	1	25	4.0
	North Wales	1	1	100.0
	Property Infrastructure	10	58	17.2
	Regional Engagement Teams	9	17	52.9
	Rural Payments	149	405	36.8
	South East & Infrastructure	0	1	0.0
	South West	0	1	0.0
	Stakeholder Engagement	0	1	0.0
	Strategy Policy	2	6	33.3
	Tourism & Marketing	2	12	16.7
	WEFO Finance & Corporate Svs	6	44	13.6
	WEFO Planning & Strategy	4	27	14.8
	WEFO Programme Management	21	83	25.3
	Total	384	1,438	26.7
Department for Education & Skills	Curriculum Division	11	44	25.0
	Director - DfES	2	3	66.7
	Employability & Skills Division	22	119	18.5
	Finance and Corporate Services Division	18	88	20.5
	Further Education & Apprenticeships	13	69	18.8
	HE Division	6	26	23.1
	ICT Unit	1	22	4.5
	Infrastructure Unit	3	11	27.3
	Qualification & Learning	6	37	16.2
	School Standards and Delivery Division	11	39	28.2
	Schools and Young People	0	7	0.0
	Schools Management & Effectivness	6	46	13.0
	SkillsHigherEducation&Lifelong Learning	3	5	60.0
	Support for Learners Division	4	36	11.1
	Transformation Programme Management Div	3	17	17.6
	Welsh Language Division	55	60	91.7
	Youth Engagement & Employment Division	5	46	10.9

	Total	169	675	25.0
Dept for Health, Social Serv & Children	Adult Social Services Policy Division	1	28	3.6
	CAFCASS Cymru	41	195	21.0
	Children, Young People & Families	9	42	21.4
	Children's Social Services	1	30	3.3
	Corporate Services & Partnerships	21	93	22.6
	Dept for Health & Social Services	1	4	25.0
	Directorate of Strategy and Policy	1	19	5.3
	Finance Directorate	4	36	11.1
	Health Improvement	2	31	6.5
	Health Professional Group	0	44	0.0
	Health Protection	1	26	3.8
	Information Services Division	0	10	0.0
	Medical Directorate	5	30	16.7
	NISCHR	2	23	8.7
	Nursing Directorate	2	9	22.2
	Service Delivery & Performance	2	24	8.3
	Social Services Directorate	5	24	20.8
	Workforce & Organisational Development	1	19	5.3
	Total	99	687	14.4
Legal Services Department	Legal Services Department	43	141	30.5
	Total	43	141	30.5
Local Government & Communities	Business Management	1	5	20.0
	Care & Social Services Insp	50	240	20.8
	Communities & Social Justice	0	3	0.0
	Communities Division	10	49	20.4
	Community Safety	8	44	18.2
	Democracy, Ethics & Partnership	1	18	5.6
	Healthcare Inspectorate Wales	7	54	13.0
	Integrated Transport	4	30	13.3
	Local Gov Finance & Public Service Perf	1	26	3.8
	Local Government & Communities	4	33	12.1
	Local Government & Public Service	0	2	0.0
	Public Service Reform	4	20	20.0
	Roads & Projects	7	50	14.0

	Transport	0	3	0.0
	Transport & Infrastructure	0	1	0.0
	Transport Planning & Governance	3	50	6.0
	Total	100	628	15.9
People, Places & Corporate Services	Central Services Operations Team	5	27	18.5
	Departmental Security	0	5	0.0
	Enabling Government Portfolio	4	26	15.4
	Engagement & Innovation	7	39	17.9
	Expert Services	57	158	36.1
	Human Resources	1	2	50.0
	People	2	26	7.7
	People, Places & Corporate Services	1	6	16.7
	Places and Services	11	91	12.1
	Property Division	15	97	15.5
	Public Services Management Wales	7	32	21.9
	Strategy	0	7	0.0
	Strategy & Performance	1	1	100.0
	TUS	0	9	0.0
	Total	111	526	21.1
Permanent Secretary's Division	Const Affairs & Inter-Gov Relations	2	9	22.2
	European & External Affairs	6	51	11.8
	Office of the First Minister	3	7	42.9
	Permanent Secretary's Division	7	45	15.6
	Total	18	112	16.1
Strategic Planning, Finance&Performance	Cabinet Division	16	64	25.0
	Chief Economist	5	29	17.2
	Chief Social Research Officer	5	42	11.9
	Communications	37	105	35.2
	Corporate Governance & Assurance	6	44	13.6
	Finance Leadership Division	0	4	0.0
	Financial Control	4	61	6.6
	First Minister's Delivery Unit	2	8	25.0
	Geography & Technology	2	20	10.0
	Head of Statistical Services	10	68	14.7
	Invest-to-Save Unit	0	3	0.0

	Knowledge & Analytical Services	3	26	11.5
	Legislative Programme Unit	2	8	25.0
	Library Services	4	22	18.2
	SAP Solutions and Support	0	29	0.0
	Strategic Budgeting	2	17	11.8
	Strategic Investment Division	0	7	0.0
	Strategic Planning and Equality	3	21	14.3
	Strategic Planning, Finance&Performance	0	13	0.0
	Value Wales	5	81	6.2
	Total	106	672	15.8
Sustainable Futures	Cadw Director	46	241	19.1
	Construction	1	4	25.0
	Culture Sport and Media	5	16	31.3
	CyMAL	13	25	52.0
	Energy Water & Flood	4	28	14.3
	Environment & Sustainable Development	3	24	12.5
	Heritage Group	2	4	50.0
	Housing Directorate	17	81	21.0
	Land Nature Forestry & Marine	14	50	28.0
	Nature, Access and Marine Unit	5	18	27.8
	OCVO	13	70	18.6
	People & Environment	7	55	12.7
	Planning	3	40	7.5
	Regeneration Legacy Projects	0	4	0.0
	Strategic Regeneration	12	41	29.3
	Sustainable Developments	1	1	100.0
	Sustainable Futures - Operations Team	6	33	18.2
	Waste	0	10	0.0
	Total	152	745	20.4
Total		1,182	5,624	21.0